



Datblygu cynaliadwy a grwpiau ffydd y DU: Dwy ochr yr un geiniog?

Arolwg o weithgareddau datblygu cynaliadwy
cymunedau ffydd y DU a'r camau nesaf ar gyfer y dyfodol

Adroddiad gan

WWF-UK a'r SDC

Hydref 2005

Ynghylch yr adroddiad hwn:

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (SDC) yw cynghorydd annibynnol y Llywodraeth ar ddatblygu cynaliadwy. O dan gadeiryddiaeth yr amgylcheddwr blaenllaw, Jonathon Porritt, gyda Chomisiynwyr o'r byd academiaidd a'r sectorau preifat, cyhoeddus ac nid er elw, mae'r SDC yn gweithio ar draws llawer un o feysydd polisi ac arfer, gan gynnwys ynni, trafndiaeth, newid yn yr hinsawdd, iechyd, addysg, treuliant a thwf economaidd.

Chwalodd cyhoeddiad yr SDC 'Redefining Prosperity' y syniad bod mwy o arian, uwchben trothwy penodol, yn ein gwneud yn hapusach a dechreuodd y ddadl bolisi ar fesurau lles amgen. Fel rhan o gyfres seminar, gwahoddodd yr SDC arweinwyr ffydd y DU i ymchwilio i ddatblygu cynaliadwy o fewn eu cymunedau ffydd. Er i wahoddiadau gael eu hanfon at groestoriad da o grwpiau ffydd gwahanol y DU, Cristnogion yn bennaf oedd y rhai a oedd yn bresennol yn y seminar, ac mae llawer o'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn wedi eu harwain gan ffydd Gristnogol. Byddai ymdrechion i hyrwyddo dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy yn elwa llawer ar allu gweld gwaith ystod o grwpiau ffydd yn well.

Daeth y seminar i'r casgliad nad oedd datblygu cynaliadwy na threuliant cynaliadwy wedi eu hintegreiddio'n ddigonol ym maes gwneud polisiau, a methodd gwleidyddion ac arweinwyr ffydd ag ymdrin yn ddigonol â'r materion pwysig hyn. Roedd awgrym y gallai uwch arweinwyr grwpiau ffydd wneud mwy o gysylltiadau rhwng eu credoau ysbrydol a'r angen i ddiogelu'r ddaear. Cynigiodd y seminar adroddiad i wneud y cysylltiadau hyn yn glir ac amlygwyd y gweithgareddau presennol wedi eu harwain gan ffydd ar y materion hyn. Gwahoddwyd WWF i ymuno â'r SDC yn yr ymrwymiad hwn.

WWF

WWF yw'r sefydliad cadwraeth annibynnol mwyaf a mwyaf profiadol yn y byd, yn gweithio mewn mwy na 90 o wledydd gyda chymorth pum miliwn o gefnogwyr. Ei nod yw atal diraddiant amgylchedd y blaned, a chreu dyfodol lle y mae pobl yn byw mewn cytgorod â natur.

Mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd gwaith WWF a chydnabyddir y sefydliad yn helaeth am ei arbenigedd yn y maes hwn. Fel sefydliad 'anwleidyddol' mae WWF mewn sefyllfa ragorol i weithio gyda chymunedau ffydd fel rhan o'i rhaglen cymunedau cynaliadwy. Arweiniodd partneriaeth â Chynghrair y Crefyddau a Chadwraeth (ARC), sefydliad yn y DU sy'n gweithio gyda chrefyddau'r byd ar faterion amgylcheddol at brosiect Tir Cysegredig y WWF, i ddatblygu model ar gyfer rheoli tir y mae sefydliadau crefyddol yn berchen arno ledled y byd.

Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod yr 11 o'r prif grefyddau dan sylw yn berchen ar tua saith y cant o dir y blaned y gellir byw arno. Bu WWF yn gefnogwyr hirdymor ac yn gynghorydd i'r Grŵp Buddsoddi Rhyng-grefyddol Rhyngwladol, 3iG, a sefydlwyd fel rhan o'r prosiect. Mae 3iG yn datblygu cynllun buddsoddi cymdeithasol gyfrifol ar raddfa fawr ar gyfer cronfeydd crefyddol. Mae aelodau pwysig yn cynnwys Bwrdd Pensiynau Methodistiaid Unedig yr UD, sydd eisoes wedi neilltuo \$13 biliwn i fuddsoddiadau cymdeithasol gyfrifol.

Cydnabyddiaethau

Mae WWF a'r SDC yn ddiolchgar i Jan McHarry a Chris Church o Community Environment Associates am eu hymchwil i gymunedau ffydd a datblygu cynaliadwy, a gynhaliwyd drwy ymchwil ddesg, cyfweiliadau a digwyddiadau, arolwg, a fforwm trafod electronig ar-lein. Mae'r papur hwn yn adeiladu ar eu canfyddiadau ymchwil cychwynnol.

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad gan Jonathon Porritt	4
Crynodeb Gweithredol	7
Rhan 1	
Cefndir a throsolwg	
1. Cyflwyniad	9
2. Crefyddau'r DU mewn cymdeithas	9
3. Grwpiau ffydd a'r agenda datblygu cynaliadwy	10
4. Nodyn ar gyfathrebu	14
Rhan 2	
Adolygiad o arfer presennol	
5. Datblygu arfer- Gweithredu'n gadarnhaol ar yr agenda datblygu cynaliadwy.	14
6. Ymgysylltiad grwpiau ffydd ag agweddau penodol ar ddatblygu cynaliadwy	16
6.1 Addysg, gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth am ddatblygu cynaliadwy	16
6.2 Gweithredu'n gyfrifol- Rheoli adeiladau a safleoedd, cyflogwyr a phrynwyr	19
6.3 Ynni a newid yn yr hinsawdd	23
6.4 Symud tuag at dreuliant cynaliadwy	24
Astudiaeth Achos 1 Be Fikr: Prosiect Moslemaidd i wneud Balsall Heath yn 'gynnes a chlyd'	25
6.5 Yr agenda fyd-eang: cyfiawnder masnach a mynd i'r afael â thlodi'r byd	26
Astudiaeth Achos 2 Partners in Creation: Ymchwilio i gyfrifoldeb a mgylcheddol drwy addysgu Iddewig	27
6.6 Ffydd a'r agendâu cymdeithasol ac economaidd	29
Astudiaeth Achos 3 Windhorse Trading: Busnes Ffordd y Bwdydd	31
6.7 Hyrwyddo lles ac iechyd pobl	32
Astudiaeth Achos 4 Canolfan St Sidwell: Adeiladu ar etifeddiaeth Gristnogol o les cymunedol	33
6.8 Ymgysylltu ar waith- Rhagor o astudiaethau achos	34
Rhan 3	
Tuag at arfer gwell	
Yr hyn a ddysgwyd o'r archwiliad anffurfiol	40
7. Camau gweithredu blaenoriaethol	40
8. Camau nesaf ar gyfer arweinwyr a chymunedau ffydd, gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr datblygu cynaliadwy, a WWF a'r SDC	42
Atodiadau	
A. Cyfeiriadau, dyfyniadau a gwefannau	44
B. Egwyddorion datblygu cynaliadwy	46

Rhagair

Jonathon Porritt



Clywn lawer y dyddiau hyn am yr achos busnes dros ddatblygu cynaliadwy, ond llai o lawer am yr achos moesol sydd yr un mor ddarbwyllol dros ddatblygu cynaliadwy. Mae'r achos moesol hwnnw yn dibynnu ar ymrwymiad sylfaenol i fwy o gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol (o fewn cenedlaethau gwahanol a rhyngddynt, ac o fewn gwledydd gwahanol a rhyngddynt), ac ar y gydnabyddiaeth fod gennym ddyletswydd foesol i sicrhau lle creaduriaid eraill waeth a ydynt yn rhoi unrhyw fudd i'r ddynoliaeth ai peidio. Mae cysyniad 'stiwardiaeth' o gymryd cyfrifoldeb cymaint ag y gallwn dros fywyd ar y Ddaear, yn ffynhonnell gref o ysbrydoliaeth foesol ar gyfer cannoedd ar filoedd o bobl ac yn elfen bwysig ym mhob un o brif grefyddau a phrif systemau ffydd y byd.

Yn "The Hidden Connections", mae Fritjof Capra yn treiddio'n ddyfnach i'r cydberthnasau hyn:

"Yn y pen draw, mae ymwybyddiaeth ecolegol ddwfn yn ymwybyddiaeth ysbrydol neu grefyddol. Pan ddeallir cysyniad yr ysbryd dynol fel y cyfrwng ymwybyddiaeth lle y mae'r unigolyn ag ymdeimlad o berthyn, o gysylltioldeb, â'r hollfyd yn ei gyfanrwydd, daw'n amlwg bod ymwybyddiaeth ecolegol yn ysbrydol yn ei hanfod dyfnaf.

Yn ddi-ddorol, mae barn o'r fath yn ennyn llawer llai o gefnogaeth nag y gellid ei ddisgwyl yn y mudiad gwyrdd ehangach yn y DU. Yn aml mae gelyniaeth tuag at y rhai sy'n hyrwyddo safbwynt ysbrydol ar heriau datblygu cynaliadwy heddiw, ac mae ei gwreiddiau yn dweud llawer wrthym am rai o'r rhwystrau y bydd angen eu goresgyn er mwyn i ni allu creu dyfodol gwirioneddol gynaliadwy i'r ddynoliaeth gyfan.

Fel y dengys yr arolwg hwn mor glir, mae llawer yma sydd ag arwyddocâd i hyrwyddwyr datblygu cynaliadwy. Yn y gorffennol, disgrifiodd syniad Max Weber o etheg gwaith Brotestanaidd yr ysgogwyr sylfaenol i bobl ddefnyddio eu talentau y rhoddodd Duw iddynt ar hyd y llinellau 'Gweithiaf fel y gallaf fynd i'r nefoedd'. Ar gyfer dinesydd byd cyfoethog cyffredin heddiw, yn lle'r etheg gwaith Brotestanaidd, etheg gwaith defnyddiwr diwedd yr 20fed ganrif yw 'Gweithiaf fel y gallaf brynu rhagor'. Er bod hyn efallai er budd busnesau sy'n ceisio gwerthu mwy a mwy, bydd yn amlwg yn anghynaliadwy yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol yn y dyfodol agos. Felly ar gyfer datblygu cynaliadwy, mae'r hyn sy'n ein hysgogi fel unigolion yn hollbwysig.

Cymerwch ddwy o heriau cynaliadwyedd mwyaf taer heddiw: sut i wrthsefyll natur ddeniadol prynwriaeth a geir bron ymhobman, a'r angen i bobl fynd y tu hwnt i barch rhesymegol am y systemau naturiol y dibynnwn arnynt drwy ddatblygu ethos llawer mwy gwylaidd a pharchus. Prin yw'r ffynonellau awdurdod (heb sôn am ddoethineb) wrth fynd i'r afael â'r ddwy her hyn nad ydynt yn deillio o ffynonellau crefyddol neu ysbrydol.

Fy nheimlad i yw ein bod yn tanamcangyfrif y chwant hwn am drosgynoldeb yn gyson, yn yr un modd ag yr ydym yn tanamcangyfrif ein gallu rhyfeddol am y teimladau dwysaf o empathi a thosturi tuag at bobl eraill a'r byd bywiol. Gwneir gormod o'r amlygiadau tra gweledol o hunan-les a'r dihidrwydd amlwg; pur anaml y caiff y mynegiant llai gweledol (a hollol anweledol yn aml) o allgaredd ac anhunanoldeb ei gynnwys yn y cyffredinoliadau bras braidd y mae tyngedfenyddion didostur heddiw yn eu gwneud am y natur ddynol. Dim ond ystyried y miliynau lawer o bobl sy'n gwneud gwaith gwirfoddol neu elusennol o ryw fath neu'i gilydd y mae'n rhaid i ni ei wneud i sylweddoli pa mor gamarweiniol y gall hyn fod.

I fwy a mwy o bobl, mae'r busnes o feithrin ein gallu ysbrydol yn flaenoriaeth ddifrifol yn awr. Wrth wraidd yr ymdrech hon mae'r syniad o ddod o hyd i 'stori newydd', gan ein galluogi i ailgysylltu â'n gwreiddiau esblygol gan fynd yn ôl dros 14 biliwn o flynyddoedd o fywyd yn datblygu, i ddeall yn well ein lle yn y greadigaeth, ac i brofi'r ymdeimlad hwnnw o gydgyssylltiad a chyd-ddibyniaeth â gweddill bywyd ar y Ddaear y mae ei golled bellach yn peryglu ein dyfodol.

Jonathan Porritt

Cadeirydd, Comisiwn Datblygu Cynaliadwy
Hydref 2005

Crynodeb gweithredol

Mae gan grwpiau ffydd y DU lawer i'w gynnig i helpu i gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae grwpiau ffydd, sydd wedi'u gwreiddio yn eu hardal dros genedlaethau, ac wedi'u diffinio gan set gref, gyffredin o werthoedd anfateryddol ac â phrofiad o gydweithio mewn ymddiriedaeth a pharch, mewn sefyllfa dda, o ran agwedd ac arfer, i ddylanwadu ar ddatblygu cynaliadwy a'i gyflawni ar bob lefel. Mae gweddi a chred ysbrydol yn cynnig ffordd o gefnogi sy'n brin yn y byd seciwlar.

Gall gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr datblygu cynaliadwy, gyda'u dealltwriaeth o'r cysylltiadau cymhleth rhwng ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a'u ffocws ar gyflawni canlyniadau lle y mae pawb ar eu hennill, gynnig fframwaith newydd i grwpiau ffydd lle y gellir mynd i'r afael â phroblemau lleol, gan ddarparu arbenigedd ymarferol, a'u cyfeirio at ffynonellau cyllid.

Fodd bynnag, y gwir yn aml yw nad yw'r rhai sy'n gweithio ym maes cynaliadwyedd bob amser yn deall y cyfraniad y gall crefyddau ei wneud, yn yr un modd nad yw'r rhai o fewn cymunedau ffydd yn gweld y cysylltiadau rhwng eu gwerthoedd hwy a datblygu cynaliadwy. Efallai nad oes gan wneuthurwyr polisi ac ymarferwyr ddealltwriaeth fanwl o gredoau a gweithgareddau gwahanol grefyddau, ac efallai nad yw cymunedau ffydd yn gyfarwydd â'r term 'datblygu cynaliadwy'. Dyma enghraifft: galwodd Agenda 21 ar lywodraethau i fod yn ymrwymedig i 'ddatblygu cymdeithasol, economaidd ac ysbrydol' ond anwybyddwyd yr olaf i raddau helaeth yn y DU gan wneuthurwyr polisi a chymunedau ffydd fel ei gilydd.

Mae'r gorgyffwrdd canlynol yn bodoli rhwng gwerthoedd a chredoau crefyddau ac egwyddorion datblygu cynaliadwy:

- Gwerthoedd a moeseg anfateryddol
- Cydgysylltiad a chyd-ddibyniaeth

- Parch at fywyd, a stiwardiaeth
- Bod yn dyst a chyfrifoldeb personol
- Cyfiawnder cymdeithasol ac etheg 'rhannu'n deg'.

Mae grwpiau ffydd yn chwarae rôl bwysig yn yr agweddau canlynol ar ddatblygu cynaliadwy:

- Addysg, gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o ddatblygu cynaliadwy
- Gweithredu'n gyfrifol – grwpiau ffydd megis rheolwyr adnoddau, cyflogwyr a phrynwyr
- Ynni a newid yn yr hinsawdd
- Symud tuag at dreuliant cynaliadwy
- Yr agenda fyd-eang: cyfiawnder masnach a mynd i'r afael â thlodi'r byd
- Yr agendâu cymdeithasol ac economaidd
- Hyrwyddo lles ac iechyd pobl.

Ymgysylltu ar waith – astudiaethau achos o arfer presennol

Drwy gydol yr adroddiad mae astudiaethau achos o brosiectau cenedlaethol a lleol. Fe'u cyflwynir fel enghreifftiau sy'n dangos yr hyn y gall grwpiau ffydd ei gyflawni ac mae'n gysylltiedig mewn amryw ffyrdd â'r materion a drafodir yn Adran 6. Nid ydynt o bell ffordd yn unigryw ac nid y rhain yw'r 'gorau' ychwaith: mae llawer o'r achosion eraill y cyfeirir atynt yn y testun yr un mor bwysig.

Yr astudiaethau achos yw:

1. Be Fikr: Prosiect Moslemaidd i wneud Balsall Health yn 'gynnes a chlyd'
2. Partners in Creation: Ymchwilio i gyfrifoldeb amgylcheddol drwy addysgu Iddewig
3. Windhorse Trading: Busness Ffordd y Bwdydd
4. Canolfan St Sidwell's: Adeiladu ar etifeddiaeth Gristnogol o les Cymunedol.

Ymhlith yr enghreifftiau da eraill mae:

1. Operation Eden
2. Canolfan Gymunedol y Muslim Khatri Association, Caerl-r
3. Prosiect A Rocha UK Living Waterways
4. SAGE – Gr·p Amgylchedd Cristnogol Rhydychen
5. ‘Greening the Meeting House’ – prosiect Cwrdd Crynwyr Dorking
6. ENHANCE: Astudiaeth beilot prosiect amgylcheddol, Eglwysi’r Mwyafrif Du
7. Environments for All in Leicester – gweithio ar draws crefyddau
8. IFEES – Sefydliad Islamaidd dros Ecoleg a Gwyddorau Amgylcheddol.

Meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu:

Mae’r astudiaethau achos hyn yn amlygu’r canlynol

- Gwneud cysylltiadau mwy pendant rhwng datblygu cynaliadwy ac arferion ffydd unigol a chyfunol
- Arweinyddiaeth ar gyfer crefyddau o amgylch datblygu cynaliadwy
- Prosiectau datblygu cynaliadwy sy’n ymwneud â ffydd yn benodol
- Gweithgaredd rhyng-grefyddol ar ddatblygu cynaliadwy.

Camau nesaf

Gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr datblygu cynaliadwy

- Gall gwneuthurwyr ac ymarferwyr polisi datblygu cynaliadwy wneud mwy o ymdrech i ddeall prif grefyddau’r DU, o ran credoau crefyddol ac arferion diwylliannol, ac ymchwilio’n greadigol i’r cyfraniad a wnânt i ddatbygu cynaliadwy
- Gallai’r ddealltwriaeth well hon arwain at ddabtlygu deunyddiau cyfathrebu penodol gan gysylltu daliadau crefyddau ag egwyddorion ac arferion datblygu cynaliadwy, ac annog gweithredu
- Gall arianwyr ddeall yn well y gwrthwynebiadau moesegol posibl i rai ffynonellau ariannu ar ran cymunedau ffydd
- Gellir ymchwilio i brosiectau datblygu cynaliadwy penodol wedi eu harwain

gan ffydd.

Arweinwyr ffydd a chymunedau ffydd

- Gall arweinwyr ffydd godi proffil materion amgylcheddol a chymdeithasol, o fewn daliadau eu ffydd, ac annog grwpiau ffydd i weithredu. Newid yn yr hinsawdd yn ddi-au yw’r mater pwysicaf y mae angen ymdrin ag ef, ac mae treuliant cynaliadwy yn un lle y mae gan grwpiau ffydd, gyda gwerthoedd sy’n herio prynwriaeth, y blaen yn naturiol ar y gweddill
- Gall arweinwyr ffydd weithredu arferion datblygu cynaliadwy ym meysydd adeiladu ‘corfforaethol’, portffolios tir a buddsoddi a chaffael
- Gall cymunedau ffydd lleol ddilyn yr enghreifftiau a amlygir yn y cyhoeddiad hwn, a dechrau eu prosiectau eu hunain
- Gallai prosiectau llwyddiannus dynnu mwy o sylw at eu cyflawniadau ac annog eraill i wneud yr un peth
- Gall cydberthnasau rhyng-grefyddol newydd gael eu hybu gan gamau ymarferol ar ddatblygu cynaliadwy.

Mae’r adroddiad hwn yn ceisio dangos llusedd y mentrau sy’n cael eu cynnal ledled y DU, ac yn dangos y ffordd ymlaen ar gyfer grwpiau ffydd eraill sy’n rhannu pryder ynghylch cyfiawnder cymdeithasol a materion amgylcheddol. Mae’r rhai a luniodd yr adroddiad yn ymwybodol o amlygrwydd grwpiau Cristnogol ymhlith y mentrau a ddisgrifir yn yr adroddiad, a luniwyd yn ystod seminar a seiliwyd ar adroddiad yr SDC *Redefining Prosperity*. Rhaid bod llawer o fentrau datblygu cynaliadwy eraill yn cael eu cynnal ar draws y rhychwant eang o grwpiau ffydd yn y DU ond mae mynediad i rwydweithiau cyfathrebu prif ffrwd yn parhau yn gyfyngedig i lawer o grwpiau.



Rhan 1 Cefndir a throsolwg

1. Cyflwyniad

Mae datblygu cynaliadwy yn daith tuag at ddiwedd glo lle mae dynoliaeth wedi dysgu byw yn gynaliadwy ar y blaned hon, a fframwaith lle y gellir cyflawni cydbwysedd teg rhwng buddiannau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol posibl, rhwng y cyfoethog a'r tlawd, a rhwng buddiannau'r genhedlaeth hon a'r rhai i ddod.

Mae gan grwpiau ffydd y DU lawer i'w gynnig i helpu i gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae grwpiau ffydd, sydd wedi'u gwreiddio yn eu hardal dros genedlaethau, ac wedi'u diffinio gan set gref, gyffredin o werthoedd anafateryddol ac â phrofiad o gydweithio mewn ymddiriedaeth a pharch, mewn sefyllfa dda, o ran agwedd ac arfer, i ddylanwadu ar ddatblygu cynaliadwy a'i gyflawni ar bob lefel. Mae gweddi a chred ysbrydol yn cynnig ffordd o gefnogi sy'n brin yn y byd seciwlar.

Gall gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr datblygu cynaliadwy, gyda'u dealltwriaeth o'r cysylltiadau cymhleth rhwng ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a'u ffocws ar gyflawni canlyniadau lle y mae pawb ar eu hennill, gynnig fframwaith newydd i grwpiau ffydd lle y gellir mynd i'r afael â phroblemau lleol, gan ddarparu arbenigedd ymarferol, a'u cyfeirio at ffynonellau cyllid.

Mae'r adroddiad hwn, a gyhoeddwyd ar y cyd gan WWF a'r SDC, yn amlygu gweithgareddau cymunedau ffydd y DU ar draws pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy, drwy astudiaethau achos hwy a chrynodebau byrrach. Mae'n amlinellu meysydd blaenoriaeth ar gyfer

gweithredu, a chyfres o gamau nesaf ar gyfer arweinwyr ffydd a chymunedau ffydd, gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr datblygu cynaliadwy a'r WWF a'r SDC. Bwriedir iddynt oll feithrin gwell dealltwriaeth a chydweithredu.

2. Crefyddau'r DU mewn cymdeithas

Mae cymunedau ffydd y DU ymhlith yr 'actorion' mwyaf blaenllaw o fewn cymdeithas sifil a chydabyddir hyn yn eang gan lywodraeth leol a chenedlaethol.

"Mae grwpiau ffydd yn rhan bwysig o'r sector gwirfoddol a chymunedol, er bod ganddynt nodweddion a'u potensial penodol eu hunain. (Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2002)

"Mae mentrau ar sail ffydd yn ychwanegu at fywyd a lles ein cymunedau." (Stephen Timms AS dros East Ham, 2004)

Gall grwpiau ffydd gael eu hystyried yn ddefnyddiol yn gymunedau buddiant – pobl sy'n rhannu buddiannau cyffredin neu briodoleddau cyffredin – ond ar y lefel leol maent hefyd yn gymunedau lleoedd – pobl sy'n byw mewn ardal benodol. Yn bwysicach na hynny, gallant hefyd fod yn gymunedau hunaniaeth – y rhai a ddiffinnir gan deimlad o hunaniaeth a rennir neu gan ryw ymrwymiad cyffredin cryf. Mae cysylltu lle, buddiant a hunaniaeth fel hyn yn aml yn brin, ac yn hepu i wneud grwpiau ffydd yn rhannau pwysig o gymuned leol ehangach. Cydnabuwyd hyn yn gynyddol mewn rhaglenni adfywio, lle y maent yn chwarae rôl gynyddol ac yn gweithio'n agosach gyda darparwyr gwasanaethau lleol:

Mae manylion cyfrifiad 2001 y DU (Tabl 1) yn darparu darlun manwl o grefyddau'r DU.

Tabl 1	Prif grefyddau'r DU
• Cristnogol <i>Eglwys Loegr</i> <i>Catholigion</i> <i>Presbyteriaid</i> <i>Methodistiaid</i> <i>Bedyddwyr</i> <i>Crynwyr</i> <i>Eraill</i>	42,079,000
• Moslemaidd	1,591,000
• Hind-aidd	559,000
• Sicaidd	336,000
• Iddewig <i>Uniongred</i> <i>Diwygiedig</i>	267,000
• Bwdaidd	152,000
Crefyddau eraill yn cynnwys:	179,000
• Ba'hai	
• Jain	
• Zoroastrian	

"I fod yn hollol gynhwysol, rhaid i gynghorau lleol weithio'n gadarnhaol gyda phob cymuned ffydd, oherwydd gallwn ddarparu mynediad i'r rhai mwyaf ymylol mewn cymdeithas mewn ffordd unigryw ac effeithiol nad yw darparwyr mwy traddodiadol mewn sefyllfa i'w wneud." Joe Ahmed-Dobson, Cadeirydd Cyngor Moslemaidd Pwyllgor Adfywio ac Adnewyddu Prydain 2003

Yng Ngwanwyn 2005, lansiodd Prif Weinidog y DU strategaeth newydd ar gyfer datblygu cynaliadwy, *Securing the Future*, sydd, ymhlith lluo o fentrau polisi ac ymrwymadau newydd, yn nodi'r camau yr anogir grwpiau lleol i'w cymryd i wella bywyd i gymunedau a lleihau effaith amgylcheddol bywyd bob dydd. (Gweler Atodiad B www.sustainable-development.gov.uk)

3. Grwpiau ffydd a'r agenda datblygu cynaliadwy

"Mae crefydd yn ddylanwad arbennig o gryf ar farn fyd-eang llawer o bobl y byd, a dyna pam y mae cyfranogiad grwpiau crefyddol tuag at hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn arwydd mor obeithiol yn fy marn i." (Papur Worldwatch 164 Medi 2004)

Mae gan gymunedau ffydd lawer o nodweddion sy'n eu gwneud yn bartner hanfodol wrth gyflawni datblygu cynaliadwy. Yn aml, maent ymhlith y grwpiau cryfaf mewn unrhyw ardal leol, gydag ymdeimlad clir o hunaniaeth a nod cyffredin. Fel aelodau parchus a dibynadwy o'r gymuned, gallant gael dylanwad pwysig ar ymddygiad pobl eraill drwy arwain yn ôl esiampl, ac mae eu presenoldeb parhaus dros

genedlaethol yn darparu sefydlogrwydd a pharhad lleol.

Hefyd, mae gan gymunedau ffydd ddaliadau sylweddol o dir neu adeiladau yn aml ynghanol cymunedau, y gellir eu rheoli'n gynaliadwy a'u defnyddio

Ond o gofio'r ddadl barhaus ymhob sector am anhawster cyfleu datblygu cynaliadwy, nii fyddai'n syndod pe bai cymunedau ffydd yn gofyn 'Beth yw'r cysylltiad rhwng datblygu cynaliadwy a'r hyn a gredaf i?' Mewn gwirionedd, mae cyswllt naturiol rhwng credoau a gwerthoedd crefyddau a'r egwyddorion a'r arferion sy'n ofynnol ar gyfer cynaliadwyedd.

Mae nifer o faterion cyffredin wrth wraidd y rhan fwyaf o grefyddau, os nad pob un, sy'n ymddangos yn berthnasol iawn i gynaliadwyedd:

- Gwerthoedd a moeseg anfateryddol
- Cydygysylltiad a chyd-ddibyniaeth
- Parch at fywyd, a stiwardiaeth
- Bod yn dyst a chyfrifoldeb personol
- Cyfiawnder cymdeithasol a moeseg 'rhannu'n deg'

Amlinellir y materion cyffredin yn fanylach isod.

Gwerthoedd a moeseg anfateryddol

"Mae anobaith ac ofn yn ymatebion dynol naturiol yn wyneb dinistriad llethol. Serch hynny gallwn gael ein rhyddhau yn yr Ysbryd i fyw ein bywydau mewn ffyrdd hollol wahanol sy'n herio diwylliant defnyddwyr. I lawer mae hyn yn anodd, a dim ond camau bach y gellir eu cymryd, ond gall hyd yn oed gamau bach arwain at gamau eraill ac at rymuso, gan oresgyn anobaith. Galwad i Weithredu 2001 y Crynwyr.

Mewn cymdeithas sy'n gynyddol fateryddol ac sy'n ymddangos fel pe bai yn blaenoriaethu treuliant personol ac elw ariannol, mae grwpiau ffydd yn

mewn amrywiaeth o ffyrdd ar gyfer gwasanaethau cymunedol lleol. Gall dathliadau a gwyliau crefyddol fod yn ganolbwyntiau cymdeithasol pwysig, gan roi amrywiaeth a bywiogrwydd i fywyd cymunedol

arddel cyfres amgen o werthoedd sy'n rhoi diffiniad gwahanol o'r hyn sy'n gyfystyr â bywyd da. Tybir bod caredigrwydd, tosturi, allgaredd, bwriad da, cyfrifoldeb personol, gwasanaeth i eraill, ac arfer ysbrydol oll yn fwy gwerthfawr o lawer na chyfoeth materol.

Mae cynaliadwyedd yn rhannu'r syniad bod mwy i fywyd nag elw ariannol, (yn wir, daw elw ariannol yn aml ar draul cymdeithasol ac amgylcheddol) ac mai'r ffordd ymlaen yw mabwysiadu ymagwedd fwy cydweithredol, cynhwysol a thosturiol. Mae gan newid yn yr hinsawdd a materion cynaliadwyedd eraill ddimensiwn moesol, yn ogystal â gwyddonol, er enghraifft, o ran dosbarthiad adnoddau naturiol. Mae grwpiau ffydd mewn sefyllfa dda i gynnig safbwynt moesegol. Mae'r ffydd Ba'hari yn gwneud cysylltiad pendant, gan nodi "dim ond pan fydd ymrwymiad personol yn ehangu o bryderon teuluol, ethnig a chenedlaethol i deyrngarwch ehangach i'r hil ddynol gyfan, y bydd yn bosibl cymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy yn effeithiol."

Moeseg a chynaliadwyedd Iddewig

Mae ffermwr organig yn yr U.D., Daron Joffe, yn dadlau bod tair etheg Iddewig yn cyfeirio at stiwardiaeth amgylcheddol. Mae *Bal tash'hit* yn nodi pan fydd dinas y gelyn dan warchae, rhaid peidio â thorri coed sy'n dwyn ffrwyth. Efallai fod y gorchymyn hwn yn amherthnasol i lawer ar ei ffurf lenyddol, ond i Joffe, mae'r gyfraith yn trosi'n hawdd i wirebau modern cadwraeth: lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu. Mae *Tikkun olam* yn annog Iddewon i "wella'r ddaear". Yn olaf, mae Joffe yn ystyried arfer hynafol bwyta Kosher fel mandad ar gyfer cefnogi "materion modern cynaliadwyedd hawliau llafur ac

Cydgysylltiad a chyd-ddibyniaeth

"Ein tynged yw rhannu'r blaned hon gyda'n gilydd ac wrth i'r byd fynd yn llai, mae angen ein gilydd arnom yn fwy nag yr oedd yn y gorffennol. Ond, pa un a ydym yn ceisio lleihau'r bygythiad niwclear, amddiffyn hawliau dynol neu ddiogelu'r amgylchedd naturiol, mae'n anodd cyflawni ysbryd o gydweithrediad gwirioneddol cyhyd â bod pobl yn parhau i fod yn ddi-hid ynghylch teimladau a hapusrwydd eraill. Yr hyn sydd ei angen yw calon garedig ac ymdeimlad o gymuned, sef yr hyn a alwaf yn gyfrifoldeb cyffredinol." Ei Sancteiddrwydd y Dalai Lama, yn ei anerchiad ar 'Seeking the True Meaning of Peace', San Jose, Costa Rica. Mehefin 25-30-1989.

Mae cymunedau ffydd yn ymestyn ledled y byd mewn rhwydwaith unedig o ddilynwyr, ac mae llawer o grefyddau yn cydnabod ein bod yn byw mewn byd sy'n gynyddol gydgysylltiedig a chyd-ddibynnol. Mae Menter Gristnogol John Ray yn pwysleisio hyn, fel y gwna 'Galwad i Weithredu' 2000 y Crynwyr, a 'galwad am gyfiawnder' Ba'hai. Mae cyd-ddibyniaeth hefyd yn egwyddor ganolog ym meddylfryd crefydd Bwdaeth.

Mae gwyddor ecoleg, y mae'r cysyniad o gynaliadwyedd yn deillio ohoni, yn arddangos cydgysylltiad a chyd-ddibyniaeth popeth byw mewn ecosystem, ac fel rhan o ecosystem y blaned, mae pobl felly yn gysylltiedig â'r byd naturiol yr ydym yn byw ynddo ac yn dibynnu arno. Mae i'n hymddygiad ganlyniadau da a drwg, bwriadedig ac anfwriadedig ar systemau cynnal bywyd natur, a bydd y canlyniadau hynny yn eu tro yn effeithio ar allu ein rhywogaethau ein hunain i oroesi a ffynnu.

Mae'r storïau creu yn y Beibl yn rhoi braint a chyfrifoldeb i bobl mewn perthynas â'r ddaear a phob creadur byw. Fe'n gelwir i fod yn bartneriaid â gweddill y greadigaeth ac yn gyd-bartneriaid yng ngweithgaredd creadigol ac adnewyddu parhaus Duw. Nid yw partneriaeth o'r fath yn

Parch at fywyd, a stiwardiaeth

"Ef yw'r un sydd wedi eich penodi yn rhaglawiaid y ddaear." (Qur'ân - 6:165)

Mae parch at fywyd yn ganolog i bron pob gwaith llenyddol crefyddol ac fe'i mynegir mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Cred y Crynwyr "nad ydym yn berchen ar y byd, ac nad yw ei gyfoeth ar gael i ni ei waredu yn ôl ein dymuniad. Dangoswch barch cariadlon tuag at bob creadur, a cheisiwch gynnal harddwch ac amrywiaeth y byd. Gweithiwch i sicrhau bod ein p-er cynyddol dros natur yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol, gyda pharch at fywyd. Ymlawenhewch yn ysbennydd creadigaeth barhaus Duw." (Advices and Queries, 1994, Rhif 42). Traddodiad Bwdaeth yw gwerthfawrogi pob math o fywyd, y rhai sy'n profi emosiwn a'r rhai nad ydynt yn profi emosiwn.

Y Qur'an a datblygu cynaliadwy

Mae'r ysgolhaig Moslemaidd Saadia Khawar Khan Chishti yn cysylltu rhannau yn y Qur'an â datblygu cynaliadwy. Mae'n dyfynnu Mohammad, proffwyd Islam, a ddywedodd "mae'r Ddaear gyfan yn fosg sy'n lle i addoli." Yn ôl Chishti, gellir yn rhesymol ddeall gofal manwl gywir y mosg fel rhywbeth sy'n cynnwys y byd naturiol.

O barch at fywyd daw'r farn o'r byd a grëwyd fel rhodd werthfawr y dylai dilynwy'r ffydd ddiolch amdani. Ac fel sy'n gweddu i rodd werthfawr, mae gofalu am y greadigaeth a stiwardiaeth drosti, diogelu adnoddau naturiol a'u defnyddio'n gyfrifol yn ffordd briodol o weithredu. Mae Menter John Ray yn awgrymu bod stiwardiaeth yn golygu cydnabod bod "y ddaear yn eiddo i'r Arglwydd, wedi ei ymddiried i ni gan Dduw, ac y bydd yn rhaid i ni roi cyfrif am ein defnydd o adnoddau'r ddaear a'n perthynas â'i Greadigaeth gyfan."

Mae atal a gwella difrod anghynaliadwy i'r byd naturiol felly yn gamau priodol i gymunedau ffydd eu cymryd. O ran datblygu cynaliadwy, mae hyn yn gyfystyr â'r egwyddor o sicrhau nad effeithir yn negyddol ar genedlaethau'r dyfodol gan benderfyniadau a gweithredoedd heddiw.

Bod yn dyst a chyfrifoldeb personol

Mae'r cysyniad o fod yn dyst yn ganolog i lawer o grefyddau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gredinwyr dystio i'w profiadau, ac yna siarad amdanynt, waeth pa mor anodd yw hynny. Ar adeg pan fydd pobl yn mynd yn gynyddol ymwybodol o broblemau cymdeithasol ac amgylcheddol, ond yn teimlo nad oes grym ganddynt i weithredu, mae bod yn dyst yn un ffordd o weithredu. A gall ffydd grefyddol gynnig cymorth pwerus yn wyneb ofn a gwadiad. Mewn cyddestun seciwlar, mabwysiadwyd bod yn dyst gan Greenpeace fel ymagwedd allweddol tuag at ei waith yn y 1990au. Ac mae bod yn dyst hefyd yn golygu cael ymdeimlad o gyfrifoldeb personol. Mae cydnabod, gwerthfawrogi ac ymateb i gyfrifoldeb personol yn fan cychwyn allweddol ar gyfer datblygu cynaliadwy.

"Bu Hiroshima Witness yn waith mor galed i helpu i'w drefnu. Ar y noson, roedd yn emosiynol ac yn brydferth. Roedd y noson

hyd yn oed yn fwy amrywiol a thrawiadol oherwydd y pethau nas cynlluniwyd, fel y dyn a roddodd betalau blodau i bobl eu taflu yn y llyn oherwydd dyna beth a wnânt yn yr India a chanu "Shalom".

Roeddwn yn synnu ei fod wedi gweithio. Gwnaethom dros 850 o gychod gyda chanhwyllau ynddynt ac roedd wedi bod yn wyntog drwy'r dydd felly roeddwn yn pryderu y byddai'r canhwyllau yn cael eu diffodd ac y byddai'r cychod yn suddo ac y byddai'r cyfan yn ofnadwy.. ond fel yr oedd y tyst yn dechrau, gostegodd y gwynt ac arhosodd yn dawelach nes i'r tyst orffen ac yna cododd eto ac er nad wyf yn credu mewn unrhyw ffordd bod "Duw yn gwenu arnom ac yn gostegu'r gwynt" neu unrhyw beth tebyg, roedd yn gyd-ddigwyddiad braf."

Hero, 15 oed, yng Nghyfarfod Blynyddol (Crynwyr) Prydain o erthygl yng nghylchgrawn The Friend, Medi 2005.

"Nid yw'n gredwr sy'n cael ei wala o fwyd tra bod ei gymydog yn newynog wrth ei ochr." Hadith (ymadrodd y Proffwyd Mohammed PBUH) Talu'r *zakat*, (un o bum piler Islam) neu 'haeddiant y tlawd', unwaith y flwyddyn. Nid elusen yw hyn ond hawl y tlawd ac mae'n sefydlog ar isafswm o ddau a hanner y cant o enillion rhywun.

Pryder cyffredin rhwng llawer o grefyddau yw bod y bwlch rhwng yr ychydig cyfoethog a'r tlawd niferus yn brif achos diraddiad y blaned a'r systemau cymdeithasol y mae'n eu cynnal. Mae datganiad ffydd y Siciaid yn cynnwys y gred bod yr argyfwng cyfiawnder cymdeithasol wedi ei achosi gan wrthdaro dyn â'i hun a bod yr argyfwng amgylcheddol wedi ei achosi gan wrthdaro dyn â natur.

4. Nodyn ar gyfathrebu

Un mater pwysig sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr ymchwil hon yw'r graddau y mae grwpiau ffydd 'y tu allan i'r cylch' (ac wedi bod erioed) o ran cyfathrebu datblygu cynaliadwy cyffredinol a lledaenu gwybodaeth. Ar wahân i brosiectau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth megis 'Living Churchyards', a rhai prosiectau lles cymdeithasol, ymddengys mai prin iawn yw'r hyn a adroddir am ddatblygu cynaliadwy ar sail ffydd.

I'r gwrthwyneb, mae adfywio ar sail ffydd yn faes sy'n cynyddu ac sydd wedi ei adnoddun dda (yn aml drwy gyllid Adnewyddu'r Gymdogaeth/Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog), gan ymgysylltu â chymunedau du a lleiafrifoedd ethnig. Mae gwaith o'r fath hefyd yn cynnig cysylltiadau â chymunedau Hind-aidd a Sicaidd, lle y mae gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd o ran datblygu cynaliadwy yn anos i'w chanfod.

Mae'r fath wyleidd-dra ynghylch cyflawniadau fel yr ymddengys nad adroddir bron unrhyw beth. Mae adrodd ar gyflawniadau a lledaenu'r wybodaeth hon yn hollbwysig os ydym i gydnabod datblygu cynaliadwy ar sail ffydd neu a anogir gan ffydd.

Rhan 2 Adolygiad o arfer presennol

Roedd llawer o grwpiau ffydd yn rhan o Uwchgynhadledd Daear Rio 1992 ac Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu

5. Datblygu arfer – gweithredu'n gadarnhaol ar yr agenda datblygu cynaliadwy

Mae llawer o fentrau amgylcheddol a chymdeithasol ar sail ffydd ar waith, ond nid ydynt eto o dan y pennawd 'datblygu cynaliadwy'. Y prif feysydd gweithgarwch yw::

- Newid yn yr hinsawdd a newid i economi carbon isel
- Cyfiawnder masnach a materion cyfiawnder cymdeithasol/amgylcheddol;
- Ymdrechion i fod yn ddefnyddwyr mwy gofalus a byw yn fwy moesegol.

Mewn rhai achosion, megis Masnach Deg, mae hanes hir o gymryd rhan ar lefel leol a sefydliadol, gyda chymunedau ffydd wedi eu hysgogi gan reidrydd moesol a moesegol clir.

5.1 Gwaith rhyngwladol

Mae digon o ddeunydd rhyngwladol i lywio ac ysbrydoli gwaith cenedlaethol. Un o'r testunau mwyaf sylfaenol o hyd yw Datganiad Assisi y prif grefyddau ar ddiogelu'r byd naturiol, a ddatblygwyd yn sgil Cynhadledd Ryngwladol WWF 1986. Mae ffynonellau defnyddiol eraill o ddeunyddiau yn cynnwys y World Faiths Dialogue, a Rhaglen Newid yn yr Hinsawdd Cyngor Eglwysi'r Byd 1999, a'i waith cynharach ar Gyfiawnder, Heddwch ac Uniondeb Creadigaeth. Yn ogystal, cynhaliodd Canolfan Harvard ar gyfer Astudio Crefyddau'r Byd gyfres o gynadleddau ar grefyddau a'r amgylchedd (www.hds.harvard.edu/cswr/).

Cynaliadwy (WSSD) ddegawd yn ddiweddarach.

Cynnulliwyd seminar gan Gyngor Eglwysi'r Byd ym 1974 i ymateb i adroddiad Clwb Rhufain, 'Limits to Growth', gan fod themâu llywodraethu da, cyfiawnder cymdeithasol a therfynau amgylcheddol yn atseinio'n gryf ddaliadau grwpiau ffydd ledled y byd.

Mae prosiectau rhyng-grefyddol rhyngwladol yn cynnwys mudiad Sarvodaya Shramadana 'Alternatives to Consumerism,' a gwaith Cynghair Crefydd a Chadwraeth(ARC)/WWF ar 'Sacred Gifts for a Living Planet'. Mae prosiectau Ewropeaidd yn cynnwys gwaith ar newid yn yr hinsawdd ac effaith gwyddoniaeth a thechnoleg gan Gyngor Eglwysi'r Byd, a'r Rhwydwaith Amgylcheddol Cristnogol Ewropeaidd (ECEN). Pwysleisiodd ymgynghoriad diwynyddol 2004 ECEN ar yr amgylchedd yr angen am astudiaeth ddyfnach o'r Testament Newydd, mwy o ymdrechion i gysylltu litwrgiau eglwysig â'r greadigaeth, a gweithredu yn erbyn treuliant anghynaliadwy.

5.2 Gwaith cenedlaethol a rhanbarthol

Yn genedlaethol, mae arweinwyr eglwys Cristnogol wedi ysgrifennu am bryderon ecolegol ac wedi sôn amdanynt, er mewn modd rhywfaint yn dameidiog. Bellach, mae gan bob esgobaeth yn Eglwys Loegr Swyddog Cyswllt Amgylcheddol, swydd ddi-dâl sydd ar agor i unrhyw glerigwr neu berson lleig sy'n gallu cynghori eu Hesgob ar faterion amgylcheddol.

Crëwyd Churches Together In Britain and Ireland (CTBI) i hyrwyddo cydweithio ac osgoi dyblygu gwaith ar feysydd diddordeb cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd allweddol. Mae CTBI hefyd yn aelod o'r Rhwydwaith Materion Amgylcheddol (EIN), lle y mae cynrychiolwyr amgylcheddol o'r enwadau gwahanol yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn i rannu eu profiadau.

Ers 35 o flynyddoedd, mae Prosiect Cymdeithas, Crefydd a Thechnoleg (SRT) Eglwys yr Alban wedi darparu sylwadau hyddysg a thrafodaeth ar faterion moesegol megis bioetheg, datblygu cynaliadwy, newid yn yr hinsawdd a rôl gwyddoniaeth mewn cymdeithas. <http://www.srtp.org.uk/srtpage3.shtml>

Mae gwaith Fazlun Khalid wrth sefydlu'r Sefydliad Islamaidd yn y DU ar gyfer Ecoleg a Gwyddorau Amgylcheddol (Enghraifft 8) wedi codi materion datblygu cynaliadwy o fewn y gymuned ffydd Foslemaidd yn y DU.

Bu cymunedau ffydd, ynghyd â chymorth Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), yn gysylltiedig â phroses adolygu'r strategaeth datblygu cynaliadwy ym mis Gorffennaf 2004. Ceisiodd digwyddiad a gynhaliwyd gan Community Environmental Associates annog mwy o fewnbwn gan unigolion o grefyddau gwahanol yn ogystal ag ymateb cyfunol.

Adfywio yw'r maes pwysicaf lle y mae crefyddau eisoes yn chwarae rhan fawr. Mae Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) wedi gweithio'n helaeth gyda grwpiau ffydd yn y rhaglen Adnewyddu'r Gymdogaeth i weithredu fel 'broceriaid gonest' mewn gwaith datblygu cymunedol. Mae Cymorth Cristnogol yn gweithio gydag Eglwysi'r Mwyaf Du yn y DU, tra bod y Gronfa Drefol Eglwysig wedi helpu amrywiaeth eang o brosiectau cymunedol mewn ardaloedd ar y cyrion. Mae gan Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol Lloegr gylch gwaith datblygu cynaliadwy ac maent yn gynyddol yn ymgysylltu â chymunedau ffydd ar y materion hyn.

5.3 Gwaith lleol

Cyflawnir y rhan fwyaf o fentrau a arweinir gan ffydd ar lefel leol. Mae strwythurau llywodraethu newydd megis y Partneriaethau Strategol Lleol yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i grwpiau ffydd gyflwyno pryderon moesol a

moesegol. Mae llawer o grwpiau ffydd yn aelodau o Rwydweithiau Grymuso Cymunedau yn yr 88 o ardaloedd lle y maent yn bodoli.

6. Ymgysylltiad grwpiau ffydd ag agweddau penodol ar ddatblygu cynaliadwy

Er bod datblygu cynaliadwy, drwy ddiffiniad, yn agenda gyfannol, cydgysylltiol, mae'r adran hon yn ymchwilio i weithgareddau grwpiau ffydd o dan y penawdau bras canlynol:

- 6.1 Addysg, gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth am ddatblygu cynaliadwy
- 6.2 Gweithredu'n gyfrifol – grwpiau ffydd fel rheolwyr adnoddau, cyflogwyr a phrynwyr
- 6.3 Ynni a newid yn yr hinsawdd
- 6.4 Symud tuag at dreuliant cynaliadwy
- 6.5 Yr agenda fyd-eang: cyfiawnder masnach a mynd i'r afael â thlodi'r byd
- 6.6 Ffydd a'r agendâu cymdeithasol ac economaidd
- 6.7 Hyrwyddo lles ac iechyd pobl

6.1 Addysg, gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth am ddatblygu cynaliadwy

"Ond yn awr, gofyn i'r anifeiliaid dy ddysgu ac i adar y nefoedd fynegi i ti neu i blanhigion y tir dy hyfforddi ac i bysgod y môr dy gyfarwyddo." Llyfr Job 12:7-8

Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n gysylltiedig â gwaith ym maes ffydd a chynaliadwyedd yn gweld addysg a chodi ymwybyddiaeth fel agwedd ganolog ar eu gwaith, sy'n arbennig o briodol yn ystod Degawd Addysg bresennol y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Cynaliadwy.

Enghreifftiau o fentrau Cristnogol

- Lanswyd **prosiect 'Eco-Congregation'** yn 1990 fel Ymgyrch Amgylchedd yr Eglwysi. Fe'i cefnogwyd i ddechrau gan ENCAMS, a bellach caiff ei redeg o'r Arthur Rank Centre, uned adnoddau ecwmenaidd yr eglwysi yng Nghanolfan Amaethyddol Genedlaethol, Stoneleigh Park. Mae'r rhaglen yn ysbrydoli eglwysi lleol i ddeall materion amgylcheddol a gofalu am y greadigaeth yng nghydestun y ffydd Gristnogol, ac i gymryd camau ymarferol. Mae archwiliad amgylcheddol syml yn helpu cynulleidfaoedd i asesu eu gweithgareddau presennol a chynllunio ar gyfer blaenoriaethau yn y dyfodol. Mae modiwlau adnoddau yn integreiddio gofal amgylcheddol â meysydd amrywiol bywyd eglwysig, o addoli i gaffael i fentrau cymunedol lleol.

Mae tua 250 o eglwysi wedi ymrwmo i fentrau 'gwyrd' ac mae 36 wedi ennill Gwobr 'Eco-Congregation'. Mae'r ymgyrch wedi helpu i godi proffil materion amgylcheddol ym mywyd eglwysig cenedlaethol. Aelodau Eglwys Loegr yw'r rhan fwyaf o'r rhai sydd wedi ymrwmo i hyn ac mae llai na phump y cant o'r plwyfi sy'n aelodau yn Gatholig.

Eco-Congregation yn Evesham

Yn 2002, roedd Eglwys Fethodistaidd Evesham yn un o'r eglwysi cyntaf i ennill y wobwr Eco-Congregation genedlaethol ar ôl i aelodau'r gynulleidfa gyfuno eu ffydd â'u cariad tuag at yr amgylchedd. Daeth yr hwb cychwynnol oddi wrth bensaer cadwraeth a oedd wedi ymddeol a garddwr organig brwd a ddaeth yn adnabyddus fel "Yr Apostol Gwyrd". Dechreuodd drwy gyflwyno cyfleusterau ailgylchu alwminiwm, caniau a tunffoil, wedyn papur, stampiau, sbectolau a ffonau symudol. Gan annog aelodau o'r gynulleidfa i glirio eu garejys, dechreuodd yr eglwys gasglu deunyddiau anhaearnaidd i'w hailgylchu, gan godi dros £1,800 ar gyfer crofna

Mae aelodau wedi plannu blodau a llwyni ar dir yr eglwys ac wedi datblygu ardal bywyd gwyllt newydd ar lannau'r Avon. Maent hefyd wedi cynghori ysgol feithrin leol ar sut i waredu sbwriel a threfnu sesiynau glanhau yn cynnwys staff, rhieni a disgyblion.

- Mae datganoli wedi hybu datblygiad **Eco-Congregation Scotland**. Fe'i cyflwynir drwy bartneriaeth rhwng Keep Scotland Beautiful a **Phrosiect Cymdeithas, Crefydd a Thechnoleg (SRTP) Eglwys yr Alban**, a chaiff ei gymeradwyo gan **Action of Churches Together in Scotland (ACTS)** a'i ariannu gan Gronfa Gweithredu Cynaliadwy Gweithrediaeth yr Alban.
- **Cyswllt Ecoleg Cristnogol (CEL)** yw'r sefydliad amgylcheddol annibynnol mwyaf datblygedig o fewn y sector ffydd. (Gweler tudalen 26) www.christian-ecology.org.uk
- **Green Apostles** yw rhwydwaith amgylcheddol cenedlaethol yr Eglwys Fethodistaidd, yn cynnig adnoddau gan gynnwys Pecyn Astudio Ynni.
- Elusen addysgol Gristnogol yw **Menter John Ray** gyda'r nod o hyrwyddo stiwardiaeth amgylcheddol gyfrifol a defnyddio gwyddoniaeth a thechnoleg yn ddoeth. Mae llawer o'i haelodau yn bobl flaenllaw ym myd gwyddoniaeth a thechnoleg, yn ymrwymedig i ddabtlygu dealltwriaeth ddyfnach o ddyn yn rhyngweithio â'r amgylchedd, ac ysgogi gweithredu ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae mentrau presennol yn cynnwys gwaith ar newid bydeang yn yr hinsawdd a threuliant cynaliadwy.

Mae'r **Sefydliad Cadwraeth** wedi gweithio mewn partneriaeth ag Eglwys Loegr ar nifer o brosiectau, gan gynnwys

Yews for the Millennium, rhwydwaith Parish Pump o gysylltiadau amgylcheddol lleol, a chyfres o weithdai codi ymwybyddiaeth ar oblygiadau lleol Uwchgynhadledd y Byd 2002 ar Ddatblygu Cynaliadwy. Mae dyfarndaliadau bach Parish Pump ar gael ar gyfer gweithredu ymarferol.

Devon Churches Green Action, wedi ei gydllynu gan Gyngor yr Eglwys a Chymdeithas

Mae hwn yn rhwydwaith ffydd Gristnogol rhanbarthol a lleol ecwmenaidd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion ecolegol ymhlith eglwysi a chymunedau Dyfnaint, ac annog pobl i fabwysiadu ffordd o fwy fwy cynaliadwy. Gan ddefnyddio proses Cyfiawnder, Heddwch ac Uniondeb y Greadigaeth fel fframwaith diwinyddol, ei nod yw "creu a gwella cymunedau sy'n gynhwysol a chynaliadwy, a darparu gweledigaeth ac arfer ar gyfer byw gyda'n gilydd mewn ffyrdd gwahanol." Mae staff cyflogedig cyfwerth ag un aelod a hanner yn arwain partneriaid megis Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol leol, Undeb y Mamau, Coleg Caerwysg a Magna Housing ar brosiectau megis prynu a buddsoddi moesegol.

- Mae **cynadleddau** yn cynnwys 'Down to Earth – the challenge of sustainability' (Bishops Palace, Wells, Medi 04) a 'Faith and Environment' (Christians Aware, Ionawr 05), a oedd hefyd yn cynnwys gweithdai ar safbwyntiau Iddewig, Hind-aidd a Sicaidd ar yr amgylchedd.
- Cynhyrchodd **Gweithgor Trafnidiaeth Fforwm Rhanbarthol Eglwysi De Orllewin Lloegr** bapur o'r enw 'Faith and Mobility: moving as if our beliefs matter'.

Mae **Gr-p Amgylchedd Eglwysi gyda'i Gilydd yn Cumbria** wedi cynhyrchu cyfres o bapurau trafod ar bynciau megis cynaliadwyedd; d-r; ffermio; Crist yn y creadigaeth; digon; globaleiddio a chwmniau rhyngwladol; hamdden, twristiaeth a'r amgylchedd; a natur weledigaethol. Maent ar gael oddi wrth

y grŵp drwy'r post: The Jays, 3 White House, Walton, Brampton, Cumbria CA82DJ

- **Prosiect Noa** – 'Jewish Education, Celebration and Action for the Earth' – mae'r fenter hon yn ymrwymedig i godi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol drwy addysg, dathlu gwyliau Iddewig, a phrosiectau ymarferol. Mae'n brosiect annibynnol nad yw'n gwneud elw, a gaiff ei gynnal gan wirfoddolwyr a'i ariannu'n llwyr gan roddion, ac mae'n annog Iddewon i arwain y blaen o ran cyfrifoldeb amgylcheddol, ac ychwanegu llais Iddewig i'r mudiadau amgylcheddol seciwlar a rhyng-grefyddol. NI ddylid drysu'r prosiect hwn gyda'r Prosiect Noa ar Newid yn yr Hinsawdd. (Gweler tudalen 23).

Enghreifftiau o fentrau Moslemaidd

- Trefnwyd **ysgol haf Foslemaidd** Parc Gwledig Mugdock yn Glasgow yn 2004 gan brosiect **BTCV yr Alban** 'Positive Images'. Ymchwiliodd 80 o Foslemaid ifanc i fioamrywiaeth, yr amgylchedd a'u ffydd, gan gymryd rhan mewn cystadlaethau a ffilmio darnau fideo byr. Rhoddwyd coeden fel rhodd i'r Ddaear.

Prosiect Imaad ac 'Islam and our Environment'

Imaad yw'r gair Arabaidd am 'biler' ac mae'n fforwm i bobl Foslemaidd broffesiynol ifanc rannu eu gwybodaeth, cryfderau a'u hadnoddau i greu cymuned Foslemaidd gryfach a mwyllyddiannus. Ym mis Hydref 2003, cynhaliodd Imaad ddigwyddiad ar 'Islam and our Environment' gyda siaradwr o'r Sefydliad Islamaidd ar gyfer Ecoleg a Gwyddorau Amgylcheddol, a swyddog yr amgylchedd Moslemaidd o Gyngor Bwrdeistref Reading. Mae deunyddiau'r digwyddiad ar gael yn

Mentrau rhyng-grefyddol

- **Mae Prosiect Tir Cysegredig ARC** yn uno llawer o grefyddau. Fe'i lanswyd ym 1997 gan Archesgob Caergaint ar y pryd, sef Dr George Carey, ac mae'r prosiect yn atgoffa pobl o botensial cysegredig eu tirwedd leol, gan adfywio hen safleoedd cysegredig a chreu rhai newydd ym Mhrydain a thramor. Mae Tir Cysegredig ym Mhrydain wedi ysgogi cymunedau Bwdaidd, Cristnogol, Hind-aidd, Iddewig, Moslemaidd a seciwlar i fwynhau gerddi ynghanol dinasoedd a gerddi cymunedol, ffynhonnau sanctaidd, llwybrau pererindod, coed a choetiroedd, ac i dathlu'r lleoedd hyn drwy gelfyddyd a barddoniaeth. Fe'i cefnogir gan WWF a'r prif grefyddau yn y DU, ac ar lefel ryngwladol mae'n cysylltu â phrosiectau Rhoddion Cysegredig a Moroedd Cysegredig ARC.

Addysg Fyd-eang

'Seeds of Change'

Mae Soka Gakkai International (SGI), mudiad Bwdaidd, yn gefnogwyr brwd Siarter y Ddaear a gwnaethant noddi fideo addysgol, 'Quiet Revolution', yn cwmpasu prif heriau amgylcheddol gan ysbrydoli astudiaethau achos o weithredu ar gyfer newid, gan gynnwys Gwaith Green Belt Comisiynydd Siarter y Ddaear sef Wangari Maathai. Mae SGI-UK wedi cynhyrchu arddangosfa 'Seeds of Change' (sy'n teithio i 5-6 o ddinasoedd y DU dros y 2 flwyddyn nesaf)

Enghreifftiau o fentrau Iddewig



noddir gan aelodau Rhydwaith
Datblygu Eglwysí'r Byd.

6.2 Gweithredu'n gyfrifol – Rheoli adeiladau a safleoedd, cyflogwyr a phrynwyr

Buddsoddiad moesegol

- Mae **gefeillio rhwng y Gogledd a'r De** yn ffordd o sefydlu cysylltiad agosach rhwng cymunedau mewn gwahanol rannau o'r byd.
- Ers 2002, mae'r grwpiau Cyfiawnder a Heddwch Catholigaidd yn St Francis de Sales yn Newbury wedi cefnogi plwyf wedi'i efeillio yn Zambria a phrosiect cysylltiedig â De Affrica, drwy wifro ysgolion a drefnwyd gan y Valley Trust, sef corff anllwydraethol yn Ne Affrica.
- Mae Prosiect Addysg Fyd-eang Esgobaeth Ripon Leeds yn cynnig dimensiwn byd-eang i'r ysgolion esgobaethol gydag adnoddau, hyfforddiant a chymorth yn yr ystafell ddisbarth, gan gynnwys cysylltiadau ag ysgolion yn Sri Lanka.
- Mae Development Education in Dorset (DEED) sydd â'i chanolfan mewn adeiladau'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn hyrwyddo dinasyddiaeth ac addysg ar gyfer gwaith datblygu cynaliadwy drwy ei pherthynas agos â'r eglwys.
- **Wythnos Un Byd (OWW)** yw un o'r prosiectau sydd wedi para hwyaf yn y maes hwn. Fe'i sefydlwyd ym 1978 fel rhaglen addysg ddatblygu, ac mae'n hyrwyddo wythnos o weithgareddau bob blwyddyn tua adeg Diwrnod y Cenhedloedd Unedig (24ain Hydref), gan gynnwys croestoriad mor amrywiol â phosibl o gymdeithas. Fe'i cynhelir ar hyn o bryd drwy Ymddiriedolaeth Mudiad Datblygu'r Byd ond mae'n anelu at fod yn elusen annibynnol ac fe'i

Mae materion buddsoddi yn gymhleth ac yn amrywiol i gymunedau ffydd. Mae gan Eglwys Loegr ac Eglwys yr Alban bolisi moesegol nad yw'n cynnwys buddsoddi mewn arfau, pornograffi, gamblo, alcohol, tybaco na phapurau newydd. Caiff y comisiynwyr eu harwain gan y Gr-p Cynghori Buddsoddiadau Moesegol (EIRIS), sydd hefyd yn cynghori Bwrdd Pensiynau Eglwys Loegr a'r Eglwys Fethodistaidd. Mae polisi buddsoddi Eglwys Loegr wedi cael ei defnyddio fel enghraifft ar gyfer eglwysi eraill.

<http://www.cofe.anglican.org/info/ethical/>

Mae opsiynau bancio poblogaidd yn cynnwys The Ecology Building Society a Triodos. Mae Triodos yn fanc moesegol annibynnol gyda'i wreiddiau ym mudiad y Crynwyr a dim ond i sefydliadau sy'n creu gwerth cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gwirioneddol y mae'n benthyg arian. Mae Triodos hefyd yn cynnig cyfle i gynilwyr fuddsoddi mewn meysydd penodol drwy gyfrifon wedi eu targedu e.e. Cyfrif Friends of the Western Buddhist Order Dana.

<http://www.ecology.co.uk/>

<http://www.triodos.co.uk/>

Gr-p Buddsoddi Rhyng-grefyddol Rhyngwladol - 3iG

Mae 3iG yn datblygu cynllun buddsoddi cymdeithasol gyfrifol ar raddfa fawr ar gyfer cronfeydd crefyddol. Dyfais ARC yw hwn ac mae 3iG yn amcangyfrif bod 11 o brif grefyddau'r byd yn berchen ar tua saith y cant o arwynebedd trigiannol y blaned a'u bod yn cynrychioli pedair biliwn a hanner o bobl.

Mae aelodau 3iG yn cynnwys sefydliadau pwysig fel Bwrdd Pensiynau Methodistaidd Unedig y DU, sydd eisoes wedi neilltuo \$13 biliwn i fuddsoddiadau cymdeithasol gyfrifol. Mae aelodau bwrdd 3iG yn cynnwys: mudiadau Zoroastriadaid, Iddewig a Moslemaidd,

Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR)

Mae gwaith ar CSR wedi esblygu'n rhannol o fuddsoddiad moesegol. Mewn anerchiad yn awgrymu y dylid trethu pobl ar yr hyn a ddefnyddiant o ran adnoddau'r Ddaear, nid ar yr hyn a enilliant, galwodd yr Esgob James Jones ar fusnesau i "ymgorffori etheg y ddaear a mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol". (The Guardian, 22 Tachwedd 2004). Un agwedd allweddol ar CSR yw sicrhau hawliau gweithwyr drwy gydol y gadwyn gyflenwi, ac mae cymunedau ffydd wedi gweithio gydag undebau llafur ar nifer o brosiectau yn y maes hwn.

- Lansiodd ymgyrch **CAFOD 'Glanhau eich Cyfrifiadur'** ym mis Ionawr 2004 i dynnu sylw at amodau gweithwyr yn y sectorau cyfrifiaduron a nwyddau electronig rhyngwladol. Ymatebodd Hewlett-Packard, Dell ac IBM i gardiau post ymgyrchwyr a negeseuon electronig drwy wella diogelwch gweithwyr rhag gwahaniaethu a chynnal eu hawl i ymuno ag undeb llafur annibynnol. Bu aelodau eglwysi hefyd yn annog Nike i ddiwygio eu safonau cyflenwi.

TELCO – Sefydliad Cymunedau Dwyrain Llundain (Dinasyddion Llundain)

Mae'r gynghair hon o fwy na 35 o grwpiau ffydd, eglwysi, mosgiau, undebau llafur, grwpiau cymunedol ac ysgolion yn dangos beth y gellir ei gyflawni pan fydd pobl yn cydweithio er mwyn creu cymdogaethau lleol gwell a sicrhau gwell cyfiawnder

Rheoli adeiladau a safleoedd

Mae Comisiynwyr yr Eglwys yn rheoli asedau Eglwys Loegr, ac yn 2003 amcangyfrifwyd eu bod yn werth £3.9 biliwn. Maent hefyd yn berchen ar tua 125,000 erw o dir amaethyddol, gan wneud yr Eglwys yn un o dirfeddianwyr mwyaf y wlad. Ond gyda'r cyfoeth hwn daw ymrwymadau i gynnal adeiladau (y mae llawer ohonynt yn hen iawn) a chynnal seilwaith, ac nid oes fawr ddim arian ar gael ar gyfer hyn. Mae pob ffydd yn wynebu problemau tebyg wrth godi arian ac mae rhai yn wynebu problemau ychwanegol. Ni all Moslemiaid weithredu yn y system forgeisi draddodiadol yn y DU a rhaid iddynt godi arian ymlaen llaw i brynu eiddo.

Mae llawer o ganolfannau ffydd yn ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd mewn adeiladau newydd neu adferedig. Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri yn chwarae rôl allweddol mewn gwaith adfer. Mae cymunedau â sail ffydd megis Findhorn Scotland a mannau addoli megis Canolfan Encilio Samye Ling Bwdaeth Tibet ar Holy Island yn yr Alban yn enghreifftiau proffil uchel. Mae menter Samye Ling wedi creu cysylltiadau â sefydliadau nad ydynt yn gysylltiedig â Bwdaeth ac mae ganddi

enw da iawn ym maes pensaernïaeth, ac enillodd brif wobwr bensaernïol ym 1994.

'Esgobaeth amgylcheddol' Manceinion

Mae Esgobaeth Manceinion yn cwmpasu cartrefi dwy filiwn o bobl. Mae'n gweithio i ddod yn brif esgobaeth amgylcheddol Prydain o dan gynllun a noddir gan WWF ac ac a frocerir gan y Gyngghrair Crefyddau a Chadwraeth (ARC). Mae'r esgobaeth yn gobeithio cynyddu ymwybyddiaeth a gweithredu ar ffordd o fyw, buddsoddi mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol, ynni adnewyddadwy, ailgylchu, teithio ynni-effeithlon, dewisiadau prynu a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae'r esgobaeth yn berchen ar 355 o eglwysi yn ogystal â neuaddau, mynwentydd, adeiladau gweinyddol, ysgolion, ficerdai, tir llan ac adeiladau eraill.

Drwy weithredu cynllun cynaliadwyedd ar draws pob un o'r meysydd hyn, mae arbedion cost sylweddol yn debygol e.e. o fesurau arbed ynni, yn ogystal â'r buddiannau amgylcheddol a chymdeithasol.

Mae'r cynllun yn cael ei hyrwyddo gan Ffôn Hwlme a Gwir Barchod

Gwneud defnydd llawn o adeiladau

Mae adeiladau a reolir gan grwpiau ffydd ac sy'n eiddo iddynt wedi bod yn fannau cymunedol ers amser hir, fel yr amlygwyd yn astudiaethau achos adroddiad Cronfa Drefol yr Eglwys (CUF) 'Building on Faith: Faith Buildings in Neighbourhood Renewal' (2004). Drwy ei chymorth ariannol, mae'r CUF yn hyrwyddo'r rôl werthfawr y gall adeiladau ffydd ei chwarae ym maes darparu gwasanaethau lleol, gan gynnig manau diogel i bobl ddod at ei gilydd "sy'n hanfodol ar gyfer unrhyw fath o

ddatblygiad cymunedol a locws ar gyfer cynaliadwyedd."

Tai Cwrdd Ffrindiau – canolfannau cynaliadwyedd cymunedol

Mae Tai Cwrdd y Crynwyr bob amser wedi cael eu defnyddio fel canolfan gymunedol ac maent yn gweithredu fel hyrwyddwyr cynaliadwyedd craff drwy gyfrwng hysbysfyddau a thrwy ddefnyddio cynhyrchion Masnach Deg a chynhyrchion sy'n gyfeillgar yn ecolegol. Mae rhwydwaith Quaker Green Action yn cynhyrchu cyfres o daflenni gwybodaeth, sy'n anelu at ddarbwylllo y rhai sy'n gyfrifol am Dai Cwrdd i ddilyn y llwybrau tirion hyn yn gyson ym mhob dewis y mae'n rhaid iddynt ei wneud. Yna bydd ein

Mynwentydd a thir cysegredig

Gall mynwentydd a thir cysegredig gynnwys amrywiaeth cyfoethog o anifeiliaid a phlanhigion lleol, yn ogystal â bod yn fannau o ddiddordeb hanesyddol

- Mae'r **Living Churchyards Project**, a gydlynir yn awr gan yr Arthur Rank Centre, yn cymeradwyo 6,000 o fynwentydd fel 'cysegrfannau' ar gyfer y rhai sy'n fyw a'r meirw, drwy arferion rheoli amgylcheddol megis gwahardd y defnydd o blaleiddiaid, a thorri'r gwair unwaith y flwyddyn. Mae'r cynllun wedi lledu i fynwentydd trefol a rhai cymunedau Moslemaidd a Hind-aidd.
- Mae **Asiantaeth yr Amgylchedd** yn dabtlygu polisi ar arferion angladdol a'r amgylchedd, drwy ymgynghori'n agos â chymunedau ffydd.
- Mae gan y **Cyngor Coed** wybodaeth am wasanaethau coed rhyng-grefyddol, ac mae 'Coed a Ffydd' yn nodwedd newydd o Wythnos Goeden Genedlaethol y Cyngor Coed.

Yorkshire Living Churchyards: prosiect ar y cyd

Mae Yorkshire Living Churchyards yn fenter ar y cyd rhwng Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Efrog ac Esgobaeth Efrog i hyrwyddo'r gwaith o reoli mynwentydd mewn ffordd sy'n ystyried planhigion ac anifeiliaid 'cynhenid'. Mae arolygon, cynlluniau rheoli, help ymarferol a seminarau oll yn rhan o brofiad dysgu gwirfoddolwyr, a ailadroddir ledled Swydd Efrog. Y catalydd gwreiddiol ynghanol y 1980au oedd Dr John Habgood, Archesgob Efrog ar y pryd ac yn sgil ei ddi-ddordeb ef mewn bywyd gwyllt aeth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd

Adamsdown Palu a Phlannu – Plannu ar gyfer y Dyfodol

Oherwydd cyflwr gwael yr ardd goffa yn Eglwys St German yn Adamsdown Caerdydd, aeth y gymuned gyfan ati i'w hadfer, gyda chefnogaeth BTCV. Gweithiodd pobl leol o dair i 60 mlwydd oed yn frwdfrydig i ailblannu gwelyau blodau, a rhoddodd BTCV gyngor ar offer a gwaith cynnal a chadw gardd yn barhaus. Daeth cefnogaeth oddi wrth bartneriaid eraill yn cynnwys Cymdeithas Tai Caerdydd, Canolfan Adnoddau Adamsdown a Fforwm Adamsdown, ac mae tir yr eglwys bellach yn ardal ddeniadol y

Arwain drwy esiampl

Ym mis Mawrth 2004, newidiodd y Church House yn Llundain, sy'n perthyn i'r Eglwys Fethodistaidd i drydan gwyrdd, ar ôl i'r Pennaeth Gweinyddu gyflwyno adroddiad "Going Green" i'r pwyllgor rheoli adeiladau. Dywedodd "Mae'n golygu ein bod yn gwneud yr hyn y gallwn ei wneud. Negodais y contract hwn drwy gyfrwng brocer, a bydd yr un brocer yn ceisio sicrhau bod yna'i gwyddorau sefyllt heb un

Prosiect Teml Balaji

Mae'r prosiect BTCV hwn yn creu safle 'tir cysegredig' o amgylch Teml Hindŵaidd Shri Venkateswara (Balaji) yn Tipton, gan greu cysylltiadau agosach rhwng y deml a'r gymuned leol a chyfuno gweithgareddau crefyddol â'r celfyddydau, iechyd a digwyddiadau amgylcheddol. Gan ddefnyddio pwerau deddfwriaethol newydd mae'r cyngor lleol wedi creu llain pentref ger y safle, yn agos at y brif ffordd, ar ddeuddeg erw a hanner o hen safle tirlenwi. Gwellwyd y fynedfa i'r safle a phlannwyd bron i 2,000 o goed cynhenid, yn ogystal â choed pinwydd sanctaidd o Dde'r India. Mae'r safle bellach yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer y gymuned gyfan, gan gynnwys dathliadau ar ben-blwydd agoriad Cysegrfan Ganesha yn y Deml, yr Wyl Holi bob gwanwyn, gwaith celfyddydol a'r daith gerdded hanesyddol ar hyd y gamlas.

Prynu a chaffael

Nid oes prinder gwybodaeth am bryniannau gwyrdd, ac mae llawer ohoni yr un mor berthnasol i grwpiau ffydd ag i rannau eraill o gymdeithas, pe bai ar gael iddynt yn hawdd.

Mae cael polisi ffurfiol ar gyfer pryniannau moesegol a/neu gynaliadwy yn helpu gweithgareddau cynlluniau ar sail ffydd megis Traidcraft ac yn helpu i brif ffyddio'r neges. Yn aml mae angen polisiâu ffurfiol ar arianwyr cyhoeddus, er bod llawer o grwpiau ffydd yn ansicr sut i'w datblygu.

Mentergarwch newydd a chyflogaeth

Mae mathau newydd o fentergarwch, mentrau busnes cymdeithasol gyfrifol a mentrau megis Banciau Amser oll yn gysylltiedig mewn ffyrdd amrywiol â chymunedau ffydd. Gallai cenadaethau diwydiannol (sefydliadau ecwmenaidd) chwarae rhan amlwg yn y maes hwn.

6.3 Ynni a Newid yn yr Hinsawdd

"Siaradwn lawer, gweddiwn ychydig, ond ni wnawn lawer am newid yn yr hinsawdd. Yr hyn sydd ei angen ar yr Eglwys yw

gweledigaeth ar gyfer y dyfodol – a dewrder.” (John Kennedy, The Guardian 9 Hydref 2004).

Newid yn yr hinsawdd yw'r broblem amgylcheddol fwyaf arwyddocaol a wynebwn heddiw ac mae

Friends of the Western Buddhist Order (FWBO)

*“Joyful is the accumulation of good work./Llawenydd yw casglu gwaith da??”
The Buddha*

Fe'i sefydlwyd gan Fwdyddion i “greu amgylcheddau lle y gallwn fyw bywydau moesol i'r eithaf posibl, gydag eraill sydd am rannu ein gwethoedd a'n dyheadau”. Mae mentrau Right Livelihood yn cynnwys bwytai llysiuol, siopau bwyd organig, canolfannau iechyd ategol, argraffu a dylunio, siopau llyfrau, cyfrifeg, celfyddydau a chrefftau a garddio. (Gweler tudalen 31)

Mae Right Livelihood hefyd yn gyfle i ymgysylltu â'r byd di-Fwdaidd, i arfer dysgeidiaeth y Bwdyddion mewn cyddestun cymdeithasol, ac i wneud gwaith yn gyfrwng trawsffurfiad personol. “Drwy wneud gweithgareddwch economaidd rydym yn rhyngweithio â'r rhai di-Fwdaidd mewn ffyrdd na fyddem yn eu gwneud pe baem yn cyfyngu ein hunain i fynachlogydd, neu hyd yn oed i ganolfannau Bwdaidd. Daw pobl na fyddent fel arall yn cwrdd â Bwdydd – cwsmeriaid, cyflenwyr, swyddogion banc, cyfreithwyr – i gysylltiad â ni, a gweithiwn yn gyson fel bod y cyswllt hwn yn creu argraff gadarnhaol arnynt.”

gan y grwpiau ffydd ymdeimlad cynyddol o weithredu. Gyda sensitifrydd penodol i faterion cyfiawnder, mae llawer o grwpiau ffydd, yn arbennig yr Eglwys Gristnogol, yn cefnogi egwyddor ‘cywasgu a chydgyfeirio’, gan gynnig cyfran decach o'r defnydd o garbon rhwng y byd datblygedig a'r byd sy'n datblygu.

- Lansiodd ymgyrch newid yn yr hinsawdd ymgyrch Noa Cyswllt Ecoleg

Cristnogol y Cyfamod Hinsawdd ym mis Hydref 2004 gan ymrwymo eglwysi ac unigolion i weithredu yn erbyn cynhesu byd-eang. Mae'r fenter hon, sydd â phartneriaid megis y Cynllun Gweithredu Byd-eang yn boblogaidd ar lefel leol, ac wedi ei hadnoddu'n dda yn ôl safonau'r sector gwirfoddol (gweler 'Ark in a Box' isod).

Ark in a box

'Ark in a box' yw'r ganolfan adnoddau ar y we ar gyfer Ymgyrch Noa, gan ddarparu cyfres hygyrch o ddeunyddiau y gellir eu llwytho i lawr sy'n canolbwyntio ar:

- Y Cyfamod Hinsawdd a gwybodaeth gefndir
- Gofyn i'r llywodraeth arwain y blaen o ran gweithredu rhyngwladol penderfynol
- Dangos eich bod o ddifrif drwy chwarae eich rhan
- Popeth sydd ei angen arnoch i greu hinsawdd o gyfiawnder i'r tlawd a chenedlaethau i ddod.

Gellir llwytho cyflwyniadau parod i lawr, a gall darpar gyflwynwyr ffonio llinell gymorth am gyngor a gwybodaeth ychwanegol ar **01252 849904** – 10am-6pm

- Mae **Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Eglwysi'r Alban**, a ffurfiwyd yn 1980, yn datgan bod dros dwy ran o dair o eglwysi Eglwys yr Alban (ac enwadau eraill) wedi cymryd rhan yng **Nghynllun Arbedion Ynni Eglwysi'r Alban**, gan leihau gollyngiadau nwy tŷ gwydr ac arbed £0.75 miliwn amcangyfrifedig bob blwyddyn.
- Mae **CRED** yn rhaglen lleihau carbon leol ym Mhrifysgol Dwyrain Anglia, sy'n gobeithio y bydd 600 o eglwysi yn Norfolk yn dewis araeau ffotofoltäig. Yn a i dai, mae eglwysi yn tueddu i gael eu hadeiladu mewn ffordd debyg, gan ddarparu toeau mawr sy'n wynebu'r de sy'n ddelfrydol i harneisio ynni'r haul.
- Mae **Rhwydwaith Ynni Eglwysi Dyfnaint** yn annog ac yn cefnogi

eglwysi sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni a phrosiectau ynni adnewyddadwy. Mae 'Devon Churches Green Action' wedi cynhyrchu adroddiad o'r enw 'Climate Change and the Devon Churches', sy'n cynnig ffyrdd y gall eglwysi a'r plwyfi weithio ar hyn a datblygu cymunedau mwy cynaliadwy.

- Mae **eglwysi Swydd Lincoln** yn gobeithio dod yn eglwysi ynni awtonomaidd, ac maent wedi cwblhau astudiaeth dichonoldeb ar adeilad arddangos effeithlonrwydd ynni carbon isel i gynhyrchu cyfleoedd busnes a chymunedol. Maent wrthi'n ceisio cael arian ar gyfer hyn.

Mae moslemiaid yn weithgar hefyd o ran materion ynni.

- **Be Fikr** (Cynnes a Chlyd) yw prosiect ymwybyddiaeth a gweithredu ynni yn y cartref yn Birmingham sy'n cael ei gynnal mewn mosg lleol, gan ddarparu hyfforddiant ar weithredu'n ymarferol i'r rhai sy'n byw mewn tai preifat o safon wael ac yn arbennig i ferched mewn purdah. (Gweler tudalen 25).
- Mae '**The Muslim Khatri Association**', Caerlŷr, wedi trawsffurfio eu canolfan gymunedol yn adeilad cynaliadwy gan ddefnyddio system ffotofoltäig fawr ac ystod o dechnolegau effeithlonrwydd ynni. (Gweler tudalen 34).

6.4 Symud tuag at dreuliant cynaliadwy

"Ceisiwch fyw yn syml. Mae dewis ffordd o fyw syml sydd ar gael i bawb yn gryfder. Peidiwch â chael eich darbwyllo i brynu rhywbeth nad oes ei angen arnoch neu na allwch ei fforddio. A ydych yn sicrhau eich bod yn gwybod y diweddaraf am effeithiau eich ffordd o fyw ar yr economi a'r amgylchedd byd-eang?" (Crynwr, Advices and Queries, 1994, Rhif 41)

"Ar gyfer defnyddwyr adnoddau'r ddaear ni rwystir ein hoferedd; yr ydym mor bell

oddi wrth ganlyniadau ein gweithredoedd fel ein bod yn byw yn gysurus gan wadu'r cyfan, ac anwybyddu'r proffwydi tynged sy'n darogan argyfwng enfawr." Yr Esgob James Jones, The Guardian, 22 Tachwedd 2004

Astudiaeth Achos 1
Be Fikr: Prosiect Moslemaidd i wneud
Balsall Heath yn 'gynnes a chlyd'

"Creodd bopeth, ac yna Fe'i hordeiniodd yn fanwl iawn." Qu'ran 25:2

"Ni newidir creadigaeth Allah. Dyna'r gwir grefydd; ond nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod." Qu'ran 30:29

Mae Mrs Ahmed yn sefyll yn ystafell wely ac ystafell ymolchi newydd ei gŵr anabl ar y llawr gwaelod ac yn egluro: "Paentais y ddwy ystafell fy hun, ac adeiladodd fy nghyd-fyfyryr wal yr ardd a helpu gyda'r gwaith plymio." Er nad sgiliau DIY sylfaenol yw'r ffordd fwyaf amlwg i ddatblygu cynaliadwy, dyna'n union y mae prosiect Be Fikr (Cynnes a Chlyd) yn ei ddarparu o'i ganolfan yng Ngholeg Cymunedol Al-Hira yn Balsall Heath, Birmingham.

Mewn ardal o amddifadedd dwys, lle mae sawl cenhedlaeth yn byw gyda'i gilydd mewn tai preifat, mae amodau byw gwael yn cael effaith fawr ar iechyd a lles. Gydag arian rhaglen SEED y Gronfa Cyfleoedd Newydd o 2002-04, darparodd prosiect Be Fikr hyfforddiant mewn mesurau diogelwch ac effeithlonrwydd ynni, gyda'r bwriad o arbed ynni, lleihau biliau ac atal problemau iechyd yn ymwneud â'r oerfel a thamprwydd.

Sylweddolodd arweinydd y cwrs Shabbir Ahmed yn fuan fod angen hyfforddiant NVQ mewn gwaith atgyweirio a chynnal a chadw sylfaenol, plymio, trydan, plastro ac addurno. "Bu'n heriol iawn ar y dechrau i weld lefel y tloedi a'r prinder addysg sylfaenol y mae rhai o'n myfyrwyr yn eu hwynebu," mae'n cyfaddef. "Roedd addysgu pobl na allant ddarllen nac ysgrifennu mewn unrhyw iaith yn brofiad newydd i mi, ac roedd yn anodd iawn dweud na wrth bobl yr oedd gwir angen rhywun arnynt i ddod i wneud gwaith atgyweirio brys iddynt. Ond mae'r canlyniadau wedi bod yn wych, ac mae rhai o'n myfyrwyr wedi sefydlu eu busnesau plymio ac adeiladu eu hunain." Roedd hyfforddiant i ferched, gan gynnwys y rhai sy'n dilyn traddodiad y purdah, yn flaenoriaeth, ac er ei bod yn anodd ar y dechrau i ddod o hyd i ferched a oedd yn diwtoriaid, cyflogwyd cyn-fyfyriwr wedyn i ddysgu ei sgiliau newydd.

Mae Coleg Cymunedol Al-Hira, a grëwyd ynghanol y 1980au gan ddefnyddio hen ffatri bianco, yn cael ei redeg gan Ymddiriedolaeth Hazrat Sultan Bahu, a'i nod yw 'diwallu anghenion crefyddol, addysgol, cymdeithasol ac ysbrydol y gymuned Foslemaidd.' Mae Llywydd yr Ymddiriedolaeth, Rafaqat Hussain yn esbonio bod yr ymagwedd hon ar sail ffydd yn cynnwys gofalu am yr amgylchedd. "Mae a wnelo llawer o'n gwaith â datblygu cynaliadwy, ond yn y gorffennol nid ydym wedi ei gynnwys o dan 'materion amgylcheddol', yn syml, mae'n rhan o'n hunaniaeth a'n hethos o wasanaethu'r gymuned a chynnal dysgeidiaeth y Qu'ran o 'gydbwysedd'."

Fel aelod blaenllaw o Fforwm Balsall Heath, mae gan yr Ymddiriedolaeth ymrwymiad parhaus i wella'r amgylchedd lleol, gan drefnu sesiynau codi sbwriel i'r plant, hyrwyddo garddio a hysbysu'r cyngor lleol am broblemau graffiti a sbwriel. Mae Hussain yn pwysleisio bod yr Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa dda i arwain y blaen ar faterion o'r fath. "Gan ein bod eisoes ynghanol y gymuned, gallwn gyfleu'r negeseuon yn effeithiol iawn, a thrwy addysg, caiff ein myfyrwyr eu grymuso'n fwy i weithredu."

Er bod arian SEED bellach wedi dod i ben, mae'r Ymddiriedolaeth yn gobeithio parhau â gwaith Be Fikr ar sail ran amser. Mae myfyrwyr bellach yn dysgu eu sgiliau wrth eu gwaith, gan adnewyddu hen ffatri ddillad fel is-adeilad y coleg yn ardal Lozells, sef yr ardal lle bu'r terfysgoedd ym 1985. Bydd y safle yn cynnig llawer o gyrsiau gan gynnwys TGCh, Saesneg ac Wrdw, ffasiwn, gofal iechyd a sgiliau sylfaenol. Mae Hussain yn gobeithio y bydd y safle newydd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer adfywio Lozells ymhellach. "Prosiectau amgylcheddol a rhai yn ymwneud â phobl ifanc yw ein dwy flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol. Gobeithiwn y bydd y model partneriaeth yn gweithio yma hefyd."

Efallai fod grwpiau ffydd mewn sefyllfa well nag unrhyw grŵp arall mewn cymdeithas i dderbyn syniad Gandhi o 'fyw yn syml fel y gall eraill fyw yn syml' ac i herio prynwriaeth. Yn wir disgrifir prynwriaeth yn aml fel y crefydd newydd, ac yn sicr mae canolfannau siopa a warysau yn y DU yn denu 'cynulleidfaoedd' mawr ar benwythnosau.

Er i dreuliant a chynhyrchiant anghynaliadwy gael eu codi fel materion pwysig ym 1992, aeth Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy ati, ar ôl y diffyg gweithredu erbyn 2002, i annog pob gwlad i ddatblygu strategaethau ar gyfer treuliant a chynhyrchiant cynaliadwy. Mae strategaeth datblygu cynaliadwy Llywodraeth y DU, 'Securing the Future' yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

- Yn ei adroddiad ym mis Tachwedd 2004, cyhoeddodd **Comisiwn Rhydychen ar Dreuliant Cynaliadwy** argymhellion penodol ar dreuliant ar gyfer cymunedau crefyddol, ochr yn ochr â llywodraeth, y cyfryngau a sefydliadau anllywodraethol.
- Mae'r prosiect **Quaker Living Witness**, a ariennir gan Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree, yn cefnogi tyst corfforaethol Cyfeillion i fyw yn gynaliadwy. Mae digwyddiadau penwythnos yn creu dealltwriaeth gyffredin o obeithion y grŵp, yn ystyried profiadau tyst y Crynwyr i gynaliadwyedd, ac yn datblygu sgiliau cyfranogwyr wrth hwyluso prosiectau a phrosesau. Mae'r gweithredu yn cynnwys grwpiau astudio, ymgyrchu cyhoeddus, prosiectau amgylcheddol a helpu plant i ddeall cynaliadwyedd. Cynhwysir enghraifft o Dŷ Cwrdd Dorking y Crynwyr.
- Mae **London Sustainability Exchange (LSx)** yn datblugu prosiect peilot i ymchwilio i ddylanwad cymunedau ffydd ar ymddygiad a threuliant cynaliadwy, fel rhan o'u gwaith 'Motivate London' ar ffyrdd o fyw cynaliadwy. Mae LSx wedi cynnal ymarfer mapio o weithrediadau cymunedau ffydd ac mae'n datblygu cynlluniau i lansio

prosiect peilot ffydd gyda'r gymuned Foslemaidd.

- Mae **Egwyddorion LOAF Cyswllt Ecoleg Cristnogol** yn annog eglwysi i brynu bwyd a gynhyrchir yn lleol, a dyfir yn organig, sy'n gyfeillgar i anifeiliaid ac wedi ei fasnachu'n deg www.christian-ecology.org.uk

6.5 Yr agenda fyd-eang: cyfiawnder masnach a mynd i'r afael â thlodi'r byd

"Gwyn eu byd y rhai sy'n sychedu a newynu am gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon." (Mathew 5:6)

Mae grwpiau ffydd wedi bod yn ganolog i waith ar ddatblygu byd-eang cyhyd â bod gwaith o'r fath wedi cael ei wneud, gan fynd yn ôl i'r ymgyrch i ddileu cefnogaeth y DU i gaethwasiaeth. Mae llawer o asiantaethau datblygu ar sail ffydd sy'n ymdrin â materion datblygu cynaliadwy gan gynnwys CAFOD, Cymorth Cristnogol, Tear Fund, Cymorth i Foslemaid, y Sefydliad Catholig dros Gysylltiadau Rhyngwladol (CIIR), Cronfa Cymorth Rhyngwladol Gatholig yr Alban (SCIAF) a'r Gronfa Cymorth a Datblygu Fethodistaidd (MRDF). Bu'r gwaith a wnaed gan gefnogwyr lleol yr asiantaethau hyn yn ganolog i lwyddiant Jiwbilf 2000 a'r Fenter Wythnos Un Byd.

Yn ogystal â gwaith ar ddatblygiad a thlodi byd-eang 'traddodiadol', ceir llais cryf o'r cymunedau ar sail ffydd mewn dau faes cysylltiedig, ond gwahanol: cyfiawnder masnach a masnach deg.

Astudiaeth achos 2

Partners in Creation: Ymchwilio i gyfrifoldeb amgylcheddol drwy addysgu Iddewig

“Ar ôl creu’r bobl gyntaf, arweiniodd Duw hwy o amgylch Gardd Eden gan ddweud, ‘Edrychwch ar fy nghreadigaethau. Gwelwch pa mor brydferth a pherffaith ydynt. Peidwch â halogi na llygru fy myd. Oherwydd os gwnewch ei lygru, ni fydd neb yno i’w unioni ar eich ôl.” Talmud

Mae Partners in Creation, sef un o blith dim ond 13 o brosiectau ledled y byd a enillodd wobwr ‘Rhodd Gysegredig’ gan y Gynghair Crefyddau a Chadwraeth, yn hyrwyddo ymwybyddiaeth a gweithredu amgylcheddol ymhlith y gymuned Iddewig yn y DU.

Mae Neville Sassienie yn aelod o Adran Materion Cymunedol Bwrdd Dirprwyon y DU ac mae’n egluro sut y daeth y prosiect i fod. “Mae’r Bwrdd Dirprwyon yn arwain y blaen o ran materion sy’n effeithio ar y gymuned Iddewig, megis addysg, iechyd, gwrth-Semitiaeth, a diogelu’r cof am yr Holocaust. Er bod y rhain yn hollbwysig, nid ydynt yn bynciau hapus iawn, ac roeddwn am gael rhywbeth a oedd yn ysbrydoli ac yn flaengar a fyddai hefyd yn ennyn diddordeb ein pobl ifanc. Er nad yw’n fater Iddewig yn unig, roedd yr amgylchedd yr union beth yr oedd ei angen, a gwnaethom alw’r prosiect yn ‘Partners in Creation’ oherwydd mae Duw yn gweithio yn y creadigaeth drwy ddwylo dyn.”

Wrth sefydlu Partners in Creation, gweithiodd y Bwrdd Dirprwyon gyda Phrosiect Noa. Cyflwynodd pob partner asedau ategol – roedd gan Brosiect Noa hanes da o gysylltu materion amgylcheddol â gwyliau Iddewig, ac roedd gan y Bwrdd y cysylltiadau i ledaenu syniadau drwy’r gymuned Iddewig ac i ddechrau codi arian.

Hyd yma mae’r prosiect wedi datblygu rhaglenni gweithredu amgylcheddol ar gyfer y cartref, y synagog a’r gweithle, ac mae’n edrych am gyhoeddwr ar gyfer adnodd addysgu i’w ddefnyddio mewn *chedarim* (dosbarthiadau crefyddol) ac ysgolion cynradd Iddewig. Gyda gwefan ar fin cael ei lansio erbyn diwedd 2005, caiff y rhaglenni hyn eu cyflwyno drwy gwisiau, taflenni ffeithiau a thudalennau trafod rhyngweithiol.

Ac er mwyn cael pobl ifanc i adael eu cyfrifiaduron a phrofi’r byd naturiol drostynt hwy eu hunain, maent yn cychwyn ar fenter lwyddiannus gan elusen o’r UD, Chazon. Mae Tikun Trek (sy’n golygu ‘Gwella’r byd’) yn daith gerdded neu daith ar gefn beic 24 awr drwy ardal braf Suffolk, gan ymchwilio i faterion amgylcheddol a dysgeidiaeth Iddewig, a chodi arian nawdd ar gyfer prosiectau cymunedol. A Tikun Trek yw’r rhagarweiniad perffaith i Limmudfest mis Awst, sef pedwar diwrnod yng nghefn gwlad i ddod o hyd i ysbrydoliaeth ar gyfer teithiau personol ac Iddewig unigolion, yn y cyfnod cyn y Flwyddyn Newydd Iddewig.

Ni fu’n hawdd dod mor bell â hyn. Mae arian yn parhau i fod yn ofid ac fel y cyfaddefa Sassienie, nid yw natur annirweddol yr argyfwng amgylcheddol yn helpu. “Mae’r gymuned Iddewig bob amser wedi arwain y ffordd wrth ofalu am bobl hen a sâl. Ac yn rhyngwladol, mae pobl yn canolbwyntio ar newyn a rhyddhad rhag dyledion oherwydd mae’n ymddangos yn fwy uniongyrchol. Ond er mai newid yn yr hinsawdd fydd ein her fyd-eang fwyaf yn yr hirdymor o bosibl, mae graffiti ar wal y synagog yn fygythiad llawer mwy i’n cymuned.” Ond mae Sassienie yn optimistaidd. “Nid wyf yn hen, ond mae fy mhiant yn llawer mwy ymwybodol o faterion amgylcheddol ac maent hwy yn ein dysgu ni. A rhaid iddynt, oherwydd mae eu dyfodol yn ddu oni ddaw datblygu cynaliadwy yn boblogaidd.”

www.limmud.org/about

- Mae **Tear Fund** wedi lansio'r ymgyrch 'Whose Earth?' fel 'cyfle i Gristnogion ymateb i'r her o fyw ar ddaear Duw yn ei ffordd ef.' Mae'r ymgyrch, sy'n annog pobl i 'wneud dewisiadau ffordd o fyw er budd pobl a'r blaned' ac yn annog eu gwleidyddion i wneud yr un peth, yn darparu gwybodaeth gefndir ar faterion byd-eang megis dŵr a charthffosiaeth, ac astudiaethau Beiblaidd ac awgrymiadau ar gyfer gweddïau. Ymhlith meysydd ymgyrchu eraill Tear Fund mae newid yn yr hinsawdd a byw yn foesebol.
- Mae'r **Sefydliad Catholig dros Gysylltiadau Rhyngwladol (CIIR)** yn elusen ryngwladol sy'n gweithio dros ddatblygu cynaliadwy ac er mwyn dileu tlodi. Fe'i sefydlwyd ym 1940 ac mae wedi ei wreiddio yng ngwerthoedd yr efengyl a thraddodiad Catholig blaengar. Mae'n annibynnol ar strwythurau eglwys swyddogol, ac mae'n gweithio mewn partneriaethau ar draws y sectorau gyda phobl o bob ffydd a chyda phobl heb ffydd. Mae CIIR yn cynnal prosiect hyrwyddo amgylcheddol sy'n amlygu'r cysylltiadau rhwng yr amgylchedd a datblygiad, ac ystyrir mai ei bamffled '*Living Lightly on the Earth*' yw'r gwaith gorau gan yr Eglwys Gatholig sydd ar gael ar hyn o bryd ar y pwnc hwn.
http://www.ciir.org/shared_asp_files/uploadedfiles/%7B95D20D42-1544-451F-834B-93526C8A41AB%7D_Env_reflecti on.pdf
- Mae **Cymorth Cristnogol** ac **Oxfam** ill dau yn sefydliadau datblygu anillywodraethol sy'n weithgar o ran tlodi yn y DU. Bu Cymorth Cristnogol yn gyfrwng i gynyddu gweithgarwch yr eglwysi ym maes adfywio, a chafwyd ymateb da iawn i'w gynllun arloesol 'How to recycle a goat'.
<http://www.christian-aid.org.uk/>
<http://www.oxfam.org.uk/>
- Mae **Water Aid** wedi sicrhau ymrwymiad cadarn gan eglwysi'r DU.
<http://www.wateraid.org.uk/>
- Mae **UNICEF** yn gweithio'n gynyddol agos â chymunedau Bwdaidd, Moslemaidd a Christnogol y mae eu credoau yn ymgorffori diddordeb mewn iechyd a lles pobl, yn arbennig plant.
<http://www.unicef.org.uk/>
- Mae'r datganiad a wnaed yn 2003 gan **Gynhadledd Lloegr a Chymru yr Esgobion Catholig a Chynhadledd yr Alban ar Fasnach a Chydfegnogaeth yr Esgobion Catholig** yn ystyried statws rheolau masnach ryngwladol, y strwythurau sefydliadol arferol, yr addewid o fudiad masnach rydd a'r cysylltiadau ag addysgu cymdeithasol yr Eglwys Gatholig, yn arbenig, lles pawb.
http://www.justiceandpeacescotland.org.uk/nm/publish/news_23.html
CAFOD yw asiantaeth datblygu a chymorth swyddogol yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr. Mae'n chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â thlodi a chyfiawnder cymdeithasol ond nid yw'n siarad dros y gymuned ffydd Gatholig gyfan o ran datblygu cynaliadwy.
<http://www.cafod.org.uk>
- **Menter Kent and Wider World** Mae menter Kent and the Wider World yn ganolfan addysg datblygu sy'n gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng pobl yn Kent a Medway a gweddill y byd, yn enwedig y mwyafrif yn y byd. Mae gwaith gyda chymunedau ffydd yn allweddol, ac mae sawl aelod o staff cyflogedig yn darparu adnoddau a hyfforddiant amgylcheddol a datblygu, ar y cyd â Chymorth Cristnogol, Oxfam a DFID. Gyda rhestr bostio o 500 o unigolion a nifer o AALI ac ysgolion, cred KWW fod ei heffaith wedi bod yn amlwg, ond yn anodd ei mesur, oherwydd adnoddau cyfyngedig.

<http://www.commonwork.org.KWW/default.htm>

Hybu'r agenda masnach deg

Mae hwn yn faes amlwg lle y gall sefydliadau ffydd wneud gwahaniaeth yn eu polisi a'u harfer prynu eu hunain, tra'n annog eu haelodau i wneud yr un peth gartref ac yn y gwaith.

- Mae'r rhan a chwaraeir gan yr eglwys, drwy stondinau Traidcraft mewn eglwysi a manau cyfarfod, yn hanfodol i sicrhau statws masnach deg ar gyfer Cynghorau **Caerwysg, Plymouth a Dwyrain Dyfnaint**.
- Yn ardal **Lerpwl**, bu cymunedau ffydd yn weithgar iawn wrth hybu'r agenda masnach deg mewn trefi lleol, a bellach mae 35 y cant o'r plwyfi Anglicanaidd a Synod Mersi yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn rhai 'masnach deg'.

6.6 Ffydd a'r agenda cymdeithasol ac economaidd

Adfywio cymunedau lleol

Mae adfywio lleol yn faes lle y bu grwpiau ffydd y DU yn hanesyddol yn fwyaf gweithgar, a chydabyddir eu potensial ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth (DETR, 2000) sy'n pwysleisio bod "cymunedau ffydd yn gallu galw ar adnoddau – pobl, rhwydweithiau, sefydliadau, adeiladau – sydd â photensial mawr ar gyfer adfywio ac adnewyddu cymdogaethau."

- Mae **Operation Eden** yn Lerpwl (tudalen) yn enghraifft ragorol o grefyddau yn arwain y blaen o ran adfywio lleol, gan arddel safbwynt datblygu cynaliadwy, cyfannol.
- Bydd rhwydweithiau newydd megis y **Rhwydwaith Adfywio ar Sail Ffydd** rhyng-grefyddol yn datblygu'r gwaith hwn ymhellach.

Y rhan a chwaraeir gan gymunedau ffydd o ran llywodraethu rhanbarthol a lleol

"Cofiwch eich cyfrifoldebau fel dinesydd wrth gynnal materion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Peidiwch â chilio rhag yr

amser a'r ymdrech a fydd yn ofynnol er mwyn i chi chwarae eich rhan."
Crynwr, Advice and Queries, 1994, Rhif 34

Faith Together yn Leeds 11

Partneriaeth ar lawr gwlad o sefydliadau Cristnogol, Moslemaidd a chymunedol a ddaeth ynghyd ym 1997 i hyrwyddo adfywio yn Leeds 11. Yn 2001, enillodd y prosiect wobwr genedlaethol gan Muslim News am gysylltiadau cymunedol, a noddwyd gan Swyddfa'r Cabinet, ac a gyflwynwyd gan Tony Blair.
<http://www.faithtogether.org.uk/>

Mae'r Llywodraeth yn hyrwyddo 'dinasyddiaeth weithgar' fel rhan graidd o'i strategaeth i gryfhau cydlyniant cymunedol. Mae cymunedau ffydd mewn sefyllfa dda i atgoffa aelodau o'u dylestwydd i fod yn ddinasyddion gweithgar.

Mae cydnabyddiaeth gynyddol o'r angen i gymunedau ffydd gael cynrychiolaeth ddigonol mewn strwythurau llywodraethu newydd megis Partneriaethau Strategol Lleol (LSPs). Yn Lerpwl, mae gan rwydweithiau ffydd lais mwy pwerus drwy gydweithio ar yr LSPs, ac mae dwy sedd grŵp craidd LSP ym Mwrdeistref Tower Hamlets yn Llundain yn benodol ar gyfer grwpiau ffydd. Mae gwaith A Rocha yn Llundain wedi cynnwys cefnogaeth gan yr LSP wrth sefydlu Fforwm Cynaliadwedd Southall (tudalen 30).

Mae gan grwpiau ffydd lais cryfach hefyd ar lefel ranbarthol.

- Mae **Cyngor Crefyddau Dwyrain Lloegr** (EEFC) yn darparu cysylltiad rhwng grwpiau ffydd a llywodraethu rhanbarthol, gan ganiatáu i grwpiau ffydd gwahanol siarad ag un llais lle bo hynny'n bosibl. Mae'r EEFC ar hyn o bryd yn gwneud gwaith ymchwil helaeth i weithgarwch cymunedau ffydd rhanbarthol, wedi ei ariannu gan Asiantaeth Ddatblygu Dwyrain Lloegr (EEDA), yn dilyn papur safbwynt rhyng-grefyddol 2003 ar gynllunio a datblygu rhanbarthol. [Http://www.eeda.org.uk/embedded_object.asp?docid=1002551](http://www.eeda.org.uk/embedded_object.asp?docid=1002551)
- Paratôdd **Rhwydwaith Eglwysi Dwyrain Lloegr** (y cysylltiad

ecwmenaidd â llywodraeth ranbarthol yn Nwyrain Lloegr) gyflwyniad yn 2003 ar 'Sustainability in the East of England' a thra oedd ar secondiad i'r EEDA, datblygodd y Parchedig Crispin White, y Caplan Diwydiannol ar gyfer Harlow, ddangosyddion cynaliadwyedd ac ystadegau rhanbarthol ar y cyd â Chyngor Eglwysi Essex ar gyfer Diwydiant a Busnes.
<http://www.eecn.org.uk/sustain.pdf>

http://www.cuf.org.uk/home.htm?sfqd_ata=4
<http://www.fbrn.org.uk/>

- Dilynwyd cyhoeddiad Asiantaeth Ddatblygu Gogledd Orllewin Lloegr (NWDA) yn 2004 '**Faith in England's Northwest**' gan lansiad gwefan ryng-grefyddol ranbarthol yn 2005, wedi ei noddi gan y NWDA, a Fforwm Rhyng-grefyddol Rhanbarthol Gogledd Orllewin Lloegr. Mae Asesiad o Effaith Economaidd hefyd yn cael ei ddatblygu.
<http://www.faithnorthwest.org.uk/>
- Yn ei adroddiad '**Sowing the Seeds**' (Hydref 2003) amlygodd **Comisiwn Rhanbarthol Eglwysi Swydd Efrog a Humber** (sefydliad Cristnogol sy'n gweithio gyda chyrff cyhoeddus a phartneriaid ffydd i hyrwyddo'r rhanbarth) gyfrifoldeb yr eglwys i weithio gyda phartneriaid adfywio eraill, yn arbennig ar gymorth ar gyfer cynhyrchu bwyd yn lleol.
<http://www.crc-online.org.uk/>

Mae cyhoeddiadau pwysig eraill ar gymunedau ffydd ac adfywio yn cynnwys: Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree 'Engaging faith communities in urban regeneration' (Mawrth 2003); cyhoeddiad y Sefydliad Economeg Newydd a Chronfa Drefol yr Eglwys 'Faiths, Hope and Participation: Celebrating faith groups' role in Neighbourhood Renewal' (Medi 2001); a chyhoeddiad y Rhwydwaith Adfywio ar Sail Ffydd 'Tools for Regeneration: A holistic approach for faith communities' (2004). <http://www.jrf.org.uk/>
<http://www.instituteforphilanthropy.org.uk/re5.html>

Astudiaeth achos 3

Windhorse Trading: Busnes Ffordd y Bwdydd

"A meddylwch am bob peth byw heb eithriad: y gwan a'r cryf, o'r lleiaf i'r mwyaf, p'un a allwch eu gweld ai peidio, yn byw yn agos neu ymhell, yn fyw yn awr neu eto i ddod – bydded i bob peth fod yn hapus yn eu calonnau!" Dyfyniad o'r Metta Sutta, The Scripture of Lovingkindness

O stondin marchnad i fusnes manwerthu gyda throsiant blynyddol o £9 miliwn, mae gan Windhorse Trading record heb ei hail o ran busnes cynaliadwy wedi ei hybu gan ffydd. Bu Windhorse Trading, sef cwmni rhoddion cyfanwerthu a manwerthu, ar dabl cynghrair *The Independent* am bum mlynedd yn olynol fel un o'r cwmnïau yn y DU a oedd yn tyfu gyflymaf ac mae'n prynu crefftau megis tecstilïau, fframiau lluniau, llyfrau wedi eu gwneud â llaw, cerfiadau pren ac addurniadau yn bennaf o wledydd tlotaf y Dwyrain.

Mae Bwdaeth yn ganolog i'r busnes, ac mae'n arwain popeth o'r berthynas â chyflenwyr a chyflogeion i sut i wario'r elw, fel yr eglura Ratnaprabha, un o'r aelodau staff. "Windhorse Trust sy'n berchen ar y busnes, ac mae ei hymddiriedolwyr yn Fwdyddion ordeiniedig, ac roedd ganddynt ddau brif nod wrth sefydlu Windhorse Trading: codi arian ar gyfer prosiectau Bwdaidd a chreu gweithle sy'n gefnogol i arfer Bwdaidd ein staff. Y prif rinwedd mewn Bwdaeth yw Dana, sy'n golygu haelioni. Mae'r rhan fwyaf o'n cyflogeion yn cael 'pecyn cymorth' yn hytrach na chyflog, ac maent yn byw gyda'i gilydd ac yn gweithio yn y bôn i gael yr hyn sydd ei angen arnynt ac yn dosbarthu'r gweddill fel rhoddion. O drosiant y llynedd, sef £9 miliwn, rhoddwyd £0.4 miliwn mewn rhoddion, yn bennaf i brosiectau Bwdaidd ond hefyd i fentrau addysg a lles yng nghymunedau'r gwneuthurwyr. Mae ein penderfyniad i ganolbwyntio ar werthu rhoddion yn fynegiant arall o *Dana*, sef annog ein cwsmeriaid yn eu cymelliadau hael eu hunain drwy gynnig pethau pryderferh iddynt eu rhoi."

Mae tua 200 o gyflogeion yn y warws a'r siopau, ac mae o leiaf 150 ohonynt yn Fwdyddion addefedig, ac un o rolau Ratnaprabha yw cefnogi'r timau siop yn eu harfer ysbrydol Bwdaidd. Drwy gyfarfodydd trafod, darlleniadau testunau, ymroi gyda'i gilydd i fyfyrddod a rhannu arfer defosyniol o amgylch cysegrfannau'r ystafell staff, anogir staff i roi eu hegwyddorion ar waith wrth ymgymryd â'r tasgau mwyaf dinod hyd yn oed. Ond mae Ratnaprabha yn cydnabod na fu hyn bob amser yn hawdd. "Mae ein twf cyflym yn golygu bod pobl wedi gweithio yn rhy galed ac wedi anghofio eu hanghenion eu hunain, ond credaf fod hynny'n gyffredin yn y busnesau mwyaf idealistig. Gwnaethom roi'r gorau i dyfu yn fwriadol ac atgyfnerthu ein sefyllfa, i greu mwy o le ar gyfer arfer personol."

Ac nid y staff yn unig sy'n elwa ar yr ymagwedd hon tuag at fusnes sy'n seiliedig ar ffydd. Mae tegwch yn wireb Fwdaidd arall, sy'n sicrhau bod y busnes yn talu ei filiau ar amser, yn gwneud datganiadau gonest wrth farchnata, yn trin ei gyflenwyr yn foesegol ac yn agored ynghylch heriau monitro ei gadwyn cyflenwi crefftau gymhleth i sicrhau masnach deg. Mae gofalu am y byd bywiol hefyd yn ddaliad allweddol, ac mae'r busnes yn ailgylchu deunyddiau pecynnu, yn defnyddio ynni gwyrdd, yn cludo nwyddau dros y môr ac nid drwy'r awyr, ac yn ymchwilio i ddefnyddio tanwydd ecolegol ar gyfer ei faniau.

Er ei fod yn 'ticio'r blychau datblygu cynaliadwy i gyd', mae Ratnaprabha yn cyfaddef "mai proffil isel sydd i'n neges, ac nid ydym yn dweud 'siopau Bwdaidd' na hyd yn oed 'siopau Masnach Deg'. Nid ydym yn tynnu sylw at ein busneswedd, oed yn aml mae cwsmeriaid yn câp am yr awyrgoleb

6.7 Hyrwyddo lles ac iechyd pobl

Llaw-fer gynyddol boblogaidd am gynaliadwyedd personol yw 'lles', gan ymgorffori iechyd, ansawdd bywyd a phryderon ysbrydol. Mewn sawl ffordd mae iechyd cyhoeddus yn cyfateb i ddatblygu cynaliadwy yn yr ystyr bod y ddau yn dibynnu ar ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cydgyssylltiol, ond nid yw gwneud y cysylltiadau â'r agenda ffydd yn gyffredin, er bod grwpiau ffydd yn gwneud llawer o waith hybu iechyd. Ymddengys na fu llawer o ymdrech i gysylltu hyn ag ymagwedd ysbrydol yn y GIG.

- Mae **mentrau rhoi'r gorau i smygu** llwyddiannus ar sail ffydd yn cael eu datblygu gan Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol a sefydliadau Moslemaidd. Mae Imamiaid yn cael hyfforddiant cefndir a defnyddir hysbysebion syml ac adnodau o'r Qu'aran yng ngweddiau dydd Gwener i gyfleu'r neges. Mae awdurdodau iechyd yn parhau â'r gwaith hwn ac yn ei ymestyn. http://www.muslimhealthnetwork.org/news_7.shtm
- Gan gydnabod lles fel rhywbeth sy'n ymgorffori anghenion ysbrydol, mae sefydliadau **Bwdaidd y Gorllewin** yn helpu i ddarparu gofal iechyd confensiynol a chyflenwol, yn cefnogi'r mudiad hosbisau (e.e. Rigpa yn Tibet) ac yn cynnig gerddi heddwch fel lleoedd i ymroi i fyfyrdd personol. Mae'r **Ganolfan Jamyang** ynghanol y ddinas yn ne Llundain yn rhedeg caffi cymunedol a gardd ac mae'n datblygu ystod o wasanaethau cymunedol i ofalwyr, pobl â salwch angheuol a chleifion â phroblemau cardiaidd. Mae **Canolfan Bwdiaith Dwyrain Llundain** yn cynnal cyrsiau lleihau straen ac enciliadau i ofalwyr. <http://www.lbc.org.uk/link.htm>

- Y maes sy'n tyfu gyflymaf ar gyfer gweithredu'n lleol ar faterion lles yw'r maes tyfu bwyd. Mae adroddiadau niferus a gwaith gan gyrff megis y Rhwydwaith Amgylchedd Du a'r Rhwydwaith Amgylchedd Menywod wedi ymgysylltu â chymunedau Du a Lleiafrifodd Ethnig (BME) yn y maes hwn. <http://www.ben-network.org.uk/>

6.8 Ymgysylltu ar waith – astudiaethau achos o arfer presennol

Drwy gydol yr adroddiad ceir astudiaethau achos o brosiectau cenedlaethol a lleol. Fe'u cyflwynir fel enghreifftiau sy'n dangos beth y gellir ei wneud ac maent yn cysylltu mewn ffyrdd amrywiol â'r materion a drafodir drwy gydol Adran 6. Nid ydynt o bell ffordd yn unigryw ac nid y rhain yw'r 'gorau' ychwaith: mae llawer o'r achosion eraill y cyfeirir atynt yn y testun yr un mor bwysig.

Yr enghreifftiau da yw:

1. Operation Eden
2. Canolfan Gymunedol Muslim Khatri Association, Caerl-r
3. Prosiect A Rocha UK Living Waterways
4. SAGE: Gr-p Amgylchedd Cristnogol Rhydychen
5. 'Greening the Meeting House': prosiect Cwrdd Crynwyr Dorking
6. ENHANCE: Astudiaeth beilot prosiect amgylcheddol Eglwysi'r Mwyafrif Du
7. Environments for All in Leicester: gweithio ar draws crefyddau
8. IFEEES: Sefydliad Islamaidd dros Ecoleg a Gwyddorau Amgylcheddol.

Astudiaeth achos 4

Canolfan St Sidwell: Adeiladu ar etifeddiaeth Gristnogol o les cymunedol

"Eiddo yr Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder; y byd ac a breswylia ynddo." Psalm 24

"Mae'r holl greadigaeth yn gân o fawl i Dduw." Hildegard o Bingen

Ers marwolaeth gynnar Sant Sidwell gan bladur, mae eglwys y plwyf sy'n dwyn ei henw wedi bod yn gysylltiedig â gwella – dywedir bod ffynnon feddyginiaethol wedi codi lle y syrthiodd ei phen. Felly pa well safle i un o blith 350 o Ganolfannau Byw'n Iach y DU, a sefydlwyd ar weledigaeth Gristnogol o gymuned leol gryfach, iachach a mwy cynhwysol?

Mae hen eglwys y plwyf, St Sidwell wedi ei lleoli yn ward Rougemont yng Nghaerwysg,, yr ail ardal fwyaf ddifreintiedig yn y ddinas gyda lefel uchel o ddiweithdra a lefel isel o les. Drwy gyfrwng arian y Loteri Fawr yn 2001 dechreuodd ystod o brosiectau i wneud yr ardal yn fwy cynaliadwy, gyda ffocws cychwynnol ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Cyflwynodd St Sidwell ystod o fentrau ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol (PCT), gan gynnwys rhaglenni rhoi'r gorau i smygu a cholli pwysau, dosbarthiadau ymarfer corff, a gr-p rhieni ifanc o dan arweiniad ymwelwyr iechyd. Yn ogystal ariannodd y PCT gydlynedd bwyta'n iach 'pump y dydd', a oedd yn gweithio yn St Sidwell ac ar draws y ddinas.

Mae bwyd da yn elfen allweddol o iechyd, ac mewn partneriaeth â BTCV, creodd gwirfoddolwyr ardd gymunedol ar dir gwastraff wrth ymyl yr eglwys, gan dyfu llysiau organig a chynnig hafan newydd ynghanol y ddinas i drigolion a bywyd gwyllt. Gyda chynnyrch o'r ardd crëwyd pryduau bwyd blasus, maethlon a fforddiadwy yn y caffi cymunedol, a chynigiwyd hyfforddiant yn ei gegin ar gyfer myfyrwyr y Fargen Newydd a chrëwyd swyddi lleol a chyfleoedd gwirfoddoli. Ar hyd un wal o'r caffi, roedd mynediad i'r rhyngrwyd, ac mewn partneriaeth â Choleg Caerwysg, cynigiodd St Sidwell ystod eang o gyrsiau TGCh mewn grwpiau bach mewn amgylchiadau cyfeillgar.

Gydag amcangyfrif ceidwadol o 20,000 o sesiynau defnyddwyr bob blwyddyn, mae Chris Alford, Cydlynedd y Ganolfan, yn tynnu sylw at y rôl y mae'r ffydd Gristnogol wedi ei chwarae yn llwyddiant St Sidwell. "Ein thema gyffredinol yw mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd, gan gytuno â'r agenda esgobaethol leol. Mae aelodau o'r eglwys yn wirfoddolwyr gweithgar iawn, ac mae'r ffaith mai Eglwys yw'r ganolfan yn amlwg! Mae parchu treftadaeth y safle Cristnogol hynafol hwn yn un o werthoedd y prosiect, ac rydym wedi cadw capel sy'n gweithio. Am ein bod mewn eglwys, mae risg o hyd bod rhai pobl yn teimlo eu bod wedi eu hallgáu, ond rydym wedi mabwysiadu ymagwedd anghrefyddol tuag at ein marchnata, a hynny'n fwriadol, a dyna'r hyn a hawliwyd gan yr arianwyr."

Gan fod arian y loteri bellach wedi dod i ben, mae St Sidwell yn dechrau ar gyfnod newydd, gan wella ei chynaliadwyedd ei hun fel adnodd cymunedol. Fel yr eglura Alford, "Dros y pedair blynedd diwethaf, rydym wedi meithrin grwpiau fel y gr-p rhieni a phlant bach a'r Clwb 50 a Mwy. Nid oes angen ein cymorth gymaint arnynt bellach, er y byddant yn parhau i ddefnyddio ein cyfleusterau." Mae hyn yn ymgorffori'r newid strategol o ganolbwyntio ar yr unigolyn i ddatblygu grwpiau, "gan na allwn fforddio gwneud cymaint ag o'r blaen."

Mae ymatebion yr aelodau yn adroddiad archwilio cymdeithasol y Ganolfan yn cynnig y prawf mwyaf gwirioneddol o gyflawniadau'r prosiect hwn ar sail ffydd. "Mae rhywun yn ymwybodol iawn o'r brwdfrydedd sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o bobl yn gwneud amrywiaeth o bethau. Yn benodol, rwyf wedi gwerthfawrogi dysgu ar y rhyngrwyd, ioga, a'r pleser y mae'r Gr-p 50 a Mwy yn ei roi i'm g.r." Mae aelod arall yn rhoi ateb mwy cryno – "Mae'n braf cael gwerddon werdd ar Stryd amhleserus Sidwell, ac mae'r coffi yn fonws ychwanegol!"

1. Operation Eden

Prosiect cynaliadwyedd aml-ffydd yw Operation Eden sy'n cael ei dreialu ledled Esgobaeth Anglicanaidd Lerpwl, o dan arweiniad cynrychiolwyr ffydd lleol mewn addoldai unigol. Mae aelodau'r gr-p llywio yn cynnwys Esgobaeth Lerpwl, Asiantaeth Ddatblygu Gogledd Orllewin Lloegr, Asiantaeth yr Amgylchedd ac Awdurdod Gwaredu Gwastraff Glannau Merswy. Mae Groundwork a Setfon CVS hefyd yn cymryd rhan.

Datblygodd y fenter yn sgîl rhwydwaith amgylcheddol a sefydlwyd gan Esgob Lerpwl, James Jones, ac mae'n cynnig cymorth, gweithdai, ac arian ar raddfa fach ar gyfer prosiectau ar adfer tir llwyd a datblygu coetiroedd, i leihau treuliant ynni, cynyddu cyfraddau ailgylchu, a gwella cydlyniant cymdeithasol. Mae unigolion yn nodi prosiectau lleol i ddiwallu anghenion eu cymunedau ffydd, yna, ar ôl asesiad cynaliadwyedd, mae Operation Eden yn eu cysylltu â darpar gydweithredwyr mewn meysydd megis iechyd, addysg, y sector gwirfoddol a'r awdurdod lleol. Cynigiwyd cymorth ariannol i bedwar prosiect yn amrywio o dyfu bwyd yn gymunedol i ailgylchu drwy ddefnyddio ceffyl a chert, a darperir hyfforddiant ar reoli prosiectau, ailgylchu a chompostio, cadwraeth ymarferol ac archwilio amgylcheddol.

Mae profiad Operation Eden yn cynnig gwersi gwerthfawr. Denwyd pobl at brosiectau a fu'n fuddiol i'w cymunedau uniongyrchol a'u galluogi i weithredu mewn gr-p gydag eraill. Lledodd storïau am newyddion da yn gyflym drwy'r rhwydwaith, a chreodd ymweliadau safle â phrosiectau llwyddiannus hwb gweithredu ychwanegol. Er nad ystyriwyd yr elfen amgylcheddol o ddatblygu cynaliadwy bob amser yn berthnasol gan bobl heb unrhyw fannau gwyrdd cyfagos, roedd yn bosibl o hyd i wneud y cysylltiadau rhwng pryderon lleol megis troseddau a'r amgylchedd

ffisegol. <http://www.operation-eden.org.uk/>

2. Canolfan Gymunedol Muslim Khatri Association, Caerl-r

Mae'r Muslim Khatri Association (MKA) yn elusen sy'n cynnal canolfan gymunedol, ac sy'n diogelu traddodiadau Indiaidd ar gyfer y gymuned Khatri fechan yng Nghaerl-r, tra'n arddangos y gorau o ran cynhyrchu ac effeithlonrwydd ynni. Mae ei chanolfan gymunedol ac addysgol sydd wedi ei hadnewyddu yn defnyddio system ffotofoltäig fawr, goleuadau ynni isel, inswleiddiad walïau, a system awyru adfer gwres a nodweddion eco-gyfeillgar eraill.

Ym 1999, roedd gan ganolfan gymunedol MKA a fu gynt yn warws benderfyniad anodd i'w wneud. Nid oedd yn cael ei defnyddio ddigon ac nid oedd yn creu llawer o incwm, felly roedd angen ei hadnewyddu ac roedd angen pwrpas newydd arni. Ymunodd Khatri trydedd genhedlaeth â'r pwyllgor rheoli gan gynnig arbenigedd newydd ac awgrymu gwirfoddoli a dysgu gydol oes fel ffyrdd o fynd i'r afael â phroblemau lleol a dod â mwy o bobl o'r gymuned ehangach i mewn i'r adeilad. Yn sgîl ymweliad ag Eco-gartref ENVIRON yng Nghaerl-r, dangosodd yr aelodau fideo 'gwyrdd' mewn cyfarfodydd ac ar deithiau bws, gan greu ymchwydd o ddiddordeb mewn mabwysiadu ymagwedd amgylcheddol tuag at y gwaith adnewyddu.

Ar ôl rhagor o drafod, ymchwil a negodi, gwnaed cais llwyddiannus am astudiaeth ddichonoldeb i Gronfa Gyffredin NRF, a chytunodd y Pwyllgor Rheoli wedyn ar gynllun mawr ar gyfer yr adeilad. Fodd bynnag, bu'r gwaith o godi'r cyfalaf yn broses lafurus, gydag Asiantaeth Ddatblygu Dwyrain Canolbarth Lloegr yn y pen draw yn cytuno i ddarparu £25k o danwariant arian SRB.

Yna daeth yn amlwg y byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer y to PV am fod y ganolfan mewn ardal gadwraeth. Er gwaethaf hyn a chan dynnu ar gryfder eu ffydd, credodd MKA y byddai ateb ar gael, ac wythnos yn ddiweddarach clywyd y byddai'r stryd efallai yn colli ei statws cadwraeth gan fod gormod o wydro dwbl wedi newid ei chymeriad. Wedi'i symbylu gan hyn, cymerodd MKA ran weithgar yn yr ymgynghoriad a arweiniwyd gan y gymuned, dilëwyd y statws ardal gadwraeth a rhoddwyd caniatâd cynllunio am do PV. Gyda hyder cynyddol yn eu gallu i wneud gwahaniaeth, gwaeth MKA geisiadau llwyddiannus eraill am arian.

Cafodd y system PV – yr un fwyaf yng Nghanolbarth Lloegr – ei chysylltu ym mis Gorffennaf 2003. Amcangyfrifir bod yr arbedion CO₂ yn 1535kg y flwyddyn. Mae nodweddion eraill yn cynnwys goleuadau synhwyro, parwydydd dwbl, leinin ffoil arian a lloriau had llin. Mae'r gwaith adnewyddu hefyd wedi creu buddiannau ariannol drwy greu unedau hybu busnes y gellir eu gweithredu drwy fand eang yn y to, gan gynhyrchu £15k y flwyddyn, a 46 o ddsbarthiadau Saesneg bob wythnos; caiff yr incwm ei wario ar ofalwyr newydd. Nod y Pwyllgor Rheoli yw bod yn hunan-gynhaliol yn ariannol erbyn 2010, ac ar hyn o bryd mae'n cynhyrchu 25 y cant o'r hyn sydd ei angen.

Bu'r prosiect yn "gromlin ddysgu enfawr i bawb" wrth i bob system newydd gael ei gosod. Ers hynny, cydnabuwyd eu hymdrechion gyda:

- Gwobr Arddangosiad Amgylcheddol Gorau Cyngor Caerl-r 2002
- Gwobr Jiwbilî y Frenhines am Gyfraniad Cymunedol Eithriadol 2003
- Canolbarth Dwyrain Lloegr Adfywio Caerl-r 2004 (Teilyngdod).

Mae MKA yn fodlon cyfaddef ei bod yn fodel rôl ond hefyd bod ei llwyddiant wedi mynd yn drech na hi, gan ei bod yn gorfod delio â llawer o ymholiadau am effeithlonrwydd ynni, er na chaiff ei

hariannu gan y Ganolfan Cyngor ar Effeithlonrwydd Ynni (EEAC). Trefnwyd teithiau misol i ddelio ag ymholiadau ymwelwyr mewn ystod o ieithoedd, ac mae ymwelwyr a myfyrwyr fel ei gilydd yn profi'n uniongyrchol y goleuadau synhwyro a'r tapiau sy'n defnyddio d-r yn effeithlon. Mae rhai o syniadau'r ganolfan yn cael eu hailadrodd mewn tair canolfan gymunedol arall yng Nghaerl-r, ac mae MKA yn darparu cyngor ymarferol a'i phrofiad i brosiect cymunedol Hind-aidd, felly mae'r "broses ddysgu eisoes yn rhoadru" Mae MKA hefyd yn cynghori Cydffederasiwn y Sefydliadau Indiaidd ar brosiect cynaliadwyedd wedi ei ariannu gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yng Nghaerl-r, a gurdwara Sicaidd ar estyniad o'i eiddo sy'n ymgorffori technoleg eco-gyfeillgar.

Mae MKA yn pwysleisio ei bod yn gyffredin mewn ardaloedd ynghanol dinas i'r amgylchedd ddod ar ôl pethau fel addysg a thai ar y rhestr blaenoriaethau. Mae ei phrosiect wedi helpu i gyflwyno manteision amgylcheddol mewn gweithgareddau dyddiol ac mae hefyd wedi dangos y gall cynaliadwyedd gynhyrchu incwm, sef rhywbeth a ystyrir gan MKA yn hollbwysig i'w llwyddiant hirdymor.

Gwêl MKA ei llwyddiant sylfaenol fel rhywbeth sy'n cynnwys pob aelod yn y gwaith caled, gan gefnogi ei gilydd drwy'r oriau hir a dreulir ar gynigion ariannu a'r problemau achlysurol sy'n codi. Mae ffydd grefyddol yr aelodau yn helpu i gynnal eu cymhelliant – bydd ymdrechion i wella ansawdd bywyd eraill yn cael eu gwobrwo yn y bywyd nesaf, sef cymhelliant ychwanegol i lawer o waith cymunedol Moslemaidd. <http://www.environmentcity.org.uk/article.asp?ParentID=105&ArticleID=115>

3. Prosiect A Rocha UK Living Waterways

Mae A Rocha UK – y gair Portiwgaleg am 'y graig' - yn rhan o sefydliad cadwraeth

Cristnogol rhyngwladol sy'n gweithio gydag unigolion, eglwysi a sefydliadau o sawl cred a chefnidir. Gan ganolbwyntio ar wyddoniaeth ac ymchwil, cadwraeth ymarferol ac addysg amgylcheddol, sefydlwyd prosiectau yn Ewrop, y Dwyrain Canol, Affrica, Gogledd a De America ac Asia.

Prosiect cyntaf y DU yw Living Waterways, a lansiwyd yn 2001, ac mae'n creu Southall a Hayes gwyrddach a glanach, mewn ardal adeiledig, aml-ddiwylliannol ac amrywiol ddiwylliannol o Orllewin Llundain. Mae'r Prosiect Living Waterways yn gweithredu fel catalydd i helpu cymunedau lleol i ddeall, parchu a mwynhau eu hamgylchedd lleol. Ymhlith yr amcanion mae:

- Creu Parc Gwledig ar dir gwastraff segur
- Gwaith addysg amgylcheddol, drwy gyfrwng gwasanaethau ysgol, clybiau a chynlluniau chwarae
- Gwarchodfa natur
- Ystafell ddosbarth symudol ar gwch pwrpasol ar Gamlas y Grand Union.

Drwy weithio gyda thirfeddianwyr lleol, Cyngor Hillingdon a grwpiau cymunedol eraill, mae A Rocha UK wedi troi safle 90 erw (36.4 hectar) yn Barc Gwledig Minet, gydag ardal hamdden, ardaloedd cadwraeth natur, a lle chwarae i blant. Darparodd A Rocha asesiad o effaith ecolegol a chydlynodd y gwaith o glirio sbwriel. Nododd arolygon bywyd gwyllt manwl bron i 100 o rywogaethau adar a 20 o rywogaethau pili pala, gan wneud y safle yn un o'r ardaloedd bywyd gwyllt nas diogelir pwysicaf yng Ngorllewin Llundain, ac mae A Rocha yn gobeithio gwneud cyfraniad hirdymor i'r gwaith o reoli'r safle hwn. Mae'r tîm yn gweithredu o ganolfan amgylcheddol gymunedol, sydd ar agor i ymwelwyr fel y gallant ddysgu am ofalu am y greadigaeth a byw yn gynaliadwy.

Mae cymunedau ffydd Southall wedi croesawu A Rocha, gan ddefnyddio'r agenda gyffredin o 'ofalu am y greadigaeth' fel man cychwyn i adeiladu

gwerthoedd a rennir, ac yn 2002 sefydlodd A Rocha UK Fforwm Cynaliadwyedd Southall fel rhwydwaith i hyrwyddo cynaliadwyedd ymhlith arweinwyr cymunedol. Y manteision oedd "ein gwneud yn sefydliad a oedd yn atebol i'r gymuned ehangach o ran ein blaenoriaethau ein hunain a'n heffeithiolrwydd, ac, yn bwysicaf, i geisio creu agenda ar gyfer cynaliadwyedd yn Southall ymhlith rhanddeiliaid allweddol – arweinwyr ffydd, arweinwyr busnes, penaethiaid, cynghorwyr, sefydliadau cymunedol, yr heddlu ac ati." Mae'r Fforwm yn cysylltu â'r Bartneriaeth Strategol Leol ac fe'i hariannwyd yn rhannol drwyddi. Mae'r Fforwm yn cyfarfod bob chwarter ac mae presenoldeb yn amrywio yn ôl y pwnc i'w drafod. Noda Cyfarwyddwr A Rocha mai un o'r trafodaethau mwyaf diddorol a gafwyd oedd "Pwy sy'n perthyn yn Southall?" Dangosodd hyn bwysigrwydd sicrhau bod gan y defnyddwyr terfynol "ymdeimlad cryf o berchenogaeth o'r prosiect – bydd pobl yn gweithio tuag at nod os teimlant fod ganddynt ryw faint o berchenogaeth a hunan-gyfeiriad."

Mae A Rocha hefyd yn cynhyrchu cylchlythyr cymunedol ddwywaith y flwyddyn o'r enw SHARE (Southall & Hayes Action to Renew the Environment). Mae defnyddwyr terfynol, aelodau a Chynghrair Gymunedol Southall yn helpu i werthuso'r prosiect. Yn anffurfiol, nodant fod eu gwaith wedi cael effaith 'amllwg' ar y gynulleidfa darged ac o fewn y gymuned ehangach. http://www.ben-network.org.uk/participation/green_spaces/gs_more_info/Minet.html

4. SAGE: Gr-p Amgylchedd Cristnogol Rhydychen

Sefydlwyd SAGE, sy'n ei ddisgrifio ei hun fel 'rhwydwaith llac', ym 1990 gan rai unigolion a deimlai mai "prin iawn yw'r Cristnogion sy'n ymddangos fel pe bai diddordeb ganddynt yn yr amgylchedd". Mae SAGE, sydd wedi ei leoli yn St Aldate, eglwys Anglicanaidd efengylaidd

ynghanol Rhydychen, wedi lledu i lawer o eglwysi o bob enwad yn yr ardal, a theimla'r aelodau gwreiddiol eu bod yn cael effaith amlwg ar Gristnogion lleol eraill.

Er ei fod wedi gwneud penderfyniad bwriadol i beidio â chodi llawer o arian nac ychwaith i gael staff cyflogedig, cred SAGE mai ef yw un o'r grwpiau amgylcheddol Cristnogol lleol mwyaf gweithgar yn y wlad. "Yn gyffredinol, bydd person yn cael syniad, yn gofyn i eraill am gymorth, ac yn gweithredu arno!" Mae ystod o brosiectau parhaus ac unigol:

- Cadwraeth ymarferol mewn gwarchodfa leol
- Cyfarfodydd gweddi, cyfarfodydd cymdeithasol, a theithiau cerdded yn y wlad "Walk with the Creator"
- Cymryd rhan, arwain neu siarad mewn gwasanaethau eglwys neu gyfarfodydd eraill
- Cyhoeddiadau yn cynnwys cylchlythyr tair gwaith y flwyddyn o'r enw Sage Words, Astudiaethau Beiblaidd, a gwefan, a ddefnyddir hefyd gan brosiectau Cristnogol lleol eraill
- Gwyliau ac enciliadau
- Cefnogi sefydliadau cenedlaethol wrth iddynt weithredu prosiectau lleol
- Dyddiau creadigrwydd.

Effaith fwyaf gwleledol SAGE fu'r gwaith o adfer hen fynwent Fictoraidd yn Nwyrain Rhydychen. Mae creu ardal werdd y gall pawb ei mwynhau yn dangos allgymorth ffydd ar waith, a chyrrhaeddodd y prosiect pob gr-p mewn cymdeithas, gan ddenu gwirfoddolwyr nad ydynt yn mynd i'r eglwys. Ymhlith y partneriaid prosiect roedd: Fforwm Cadwraeth Natur Swydd Rydychen, BTCV, ymddiriedolaeth bywyd gwyllt leol (BBONT), WREN (treth dirlenwi), East Oxford Action (SRB) a'r Sefydliad Cadwraeth.

Cred SAGE mai'r "allwedd i lwyddiant yw peidio â bod yn gystadleuol – cydweithredu yw'r ffordd orau ymlaen", a bod "bach yn brydferth. Mae prinder arian yn golygu llai o ofidiau a llai o frwydro am b-er. Gall rhai pobl ymroddedig wneud llawer." Dangosir hyn gan *Climate Change: How Christians Respond*, cynhadledd tair sir ar gyfer yr Esgobaeth ym mis Chwefror 2005. Mewn hysbyseb ar gyfer y gynhadledd gwelwyd ymddangosiad cyntaf yr amgylchedd ar dudalen gartref Esgobaeth Rhydychen. www.sageoxford.org.uk

5. 'Greening the Meeting House': prosiect Cwrdd Crynwyr Dorking

Dechreuodd gweithgareddau 'Greening the Meeting House' yn 2001 mewn ymateb i Alwad i Weithredu (2001) y Crynwyr ac mae wedi arwain at welliannau amgylcheddol sylweddol i'r adeilad a'i reolaeth, fel rhan o brosiect treuliant Living Witness y Crynwyr.

Ar ôl dechrau araf, sefydlodd y Gr-p Rheoli weithgor, gan ddibynnu llawer ar fewnbwn arbenigol gan Gyfaill a oedd yn beiriannydd gwresogi â diddordeb yn yr amgylchedd. Gyda buddsoddiad moesegol gyda Triodos a Chymdeithas Adeiladu Portman eisoes ar waith, cytunodd y gweithgor i archwilio ôl-troed amgylcheddol cyfredol y T- Cwrdd o ran:

- Cyflenwi a defnyddio ynni a'i effeithlonrwydd
- Gwresogi, goleuo ac inswleiddio
- Cemegion a deunyddiau glanhau
- Defnyddio adnoddau yn y gwaith o gynnal y T- Cwrdd o ddydd i ddydd
- Lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu deunyddiau adeiladu, ac ymchwilio i'r defnydd o gynhyrchion wedi'u hailgylchu
- Lluniaeth
- Planhigion gardd a rhai dan do.

Lluniodd y gweithgor gynllun gweithredu o'r archwiliad, gan amcangyfrif buddiannau cost a buddiannau amgylcheddol. Y cam cyntaf oedd newid i drydan adnewyddadwy, a chafodd hyn effaith ychwanegol oherwydd newidiodd rhai Cyfeillion eu cyflenwad cartref hwy eu hunain hefyd. Sefydlwyd pwyntiau ailgylchu ar gyfer eitemau nad yw'r awdurdod lleol yn ymdrin â hwy.

Sicrhawyd arian ar gyfer y gwelliannau amrywiol yn allanol gan SITA (cynllun treth tirlenwi cwmni rheoli gwastraff) ac yn fewnol drwy ffydd y Crynwyr, ond dibynnwyd llawer ar ymdrechion gwirfoddol pobl lleol. Cynyddodd cyflawniadau cynyddol bach y momentwm, a dywed y rhai dan sylw "os oes rhai pobl frwdfrydig yn barod i wneud y rhan fwyaf o'r gwaith, mae gweddiill y gr-p yn fodlon cytuno ar hynny. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gofidio am yr amgylchedd ond yn teimlo nad yw'r grym ganddynt i weithredu."

Dyfarnwyd gwobr Eco-congregation i Grynwyr Dorking ym mis Mai 2003 a bellach mae gan D· Cwrdd y Cyfeillion bolisi amgylcheddol cynhwysfawr i baw sy'n hurio'r adeilad. Mae Cyrddau Crynwyr eraill wedi cysylltu â'r prosiect hwn am gyngor, a dosbarthwyd gwybodaeth drwy gyfrwng Churches Together yn Dorking.
<http://www.quakergreenconcern.org.uk/>

6. ENHANCE: Astudiaeth beilot Prosiect Amgylcheddol Eglwysîr Mwyafrif Du

Ddwy flynedd ar ôl dechrau'r Prosiect Eco-Congregation, daeth yn amlwg nad oedd yr eglwysî mwyafrif du mwy newydd yn cymryd unrhyw ran. Roedd ENHANCE yn fenter dair blynedd yn Handsworth a Lozells, Birmingham, yn cael ei rhedeg gan ENCAMS a'i chefnogi gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. Gwnaeth dargedu wyth enwad gwahanol gyda chynulleidfaoedd amrywiol eu maint a chysylltiadau â

chymunedau Affricanaidd, Caribiaidd ac Asiaidd.

Oherwydd anawsterau recriwtio gohiriwyd y gwaith am 11 mis. Canolbwyntiodd gwaith y flwyddyn gyntaf ar greu ymddiriedaeth a datblygu syniadau, ac enwebodd eglwysî â diddordeb gydlynwyr gweithredu cymdeithasol a gyfarfu'n rheolaidd ac a adroddodd yn ôl mewn gwasanaethau eglwysî.

Bu 70 o bobl yn gysylltiedig ag ymgyrch Lozells Community Clean Up, ac roedd 50 ohonynt yn dod o eglwysî lleol. Gwnaethant symud 180 o fagiâu o sbwriel a glanhau graffiti, er rhyddhad amlwg i drigolion lleol, a noda cydlynnydd blaenorol y prosiect "iddo ysbrydoli mentrau glanhau mewn ardaloedd eraill hefyd a mwy o 'berchenogaeth' o safleoedd - caiff pedwar o blith pump eu cynnal o hyd. Drwy ddileu manau hyll, codwyd ysbryd pobl ac unwaith eto roedd ymdeimlad o obaith yn yr ardal. Mae'r effaith yn anfesuradwy ond gellir teimlo'r effeithiau o hyd." Yn sgîl y gweithredu, a gafodd sylw ar y rhaglen newyddion lleol ar y teledu, anogwyd grwpiau cymunedol i leisio eu pryderon wrth Gyngor Dinas Birmingham nad oedd sbwriel yn cael ei gasglu o ardaloedd tlotach mor aml ag yr oedd mewn ardaloedd cyfoethog. Sicrhawyd arian a chefnogaeth arall gan B&Q, McDonalds, Whitbread Action Earth a masnachwyr lleol.

Yn ogystal â'r gwaith glanhau cymunedol, cyflawnodd ENHANCE:

- Dau brosiect clytiaù tir eglwysig yn Handsworth, gan ddenu pobl o bob oedran a nifer gyfartal o ddynion a merched
- Prosiect cymunedol galw heibio yn y New Testament Church of God, Lozells, gan gynnig cyngor a chymorth ymarferol i bobl ddigartref a diamddiffyn, heb 'werthu' y neges ffydd yn agored.
- Diwrnod democratiaeth
- Taith addysgol i blant

- Archwiliad ynni yn y Church of God of Prophecy yn Winson Green.

Mae ENHANCE yn cynnig nifer o wersi defnyddiol. Mae angen help ar grwpiau ffydd i drosi cysyniadau amgylcheddol yn iaith yr eglwys, er mwyn 'gwerthu' y rhaglen i arweinwyr prysur, y mae angen eraill arnynt i weithredu fel hyrwyddwyr prosiect o ddydd i ddydd. Mae angen llawer o amser a sgiliau i ganiatáu i syniadau am brosiectau ddeillio o flaenoriaethau'r eglwysi a chymunedau lleol, ac efallai y bydd angen gwybodaeth, hyfforddiant a chyllideb fach o leiaf ar hyrwyddwyr prosiectau er mwyn i hyn ddigwydd. Mae sicrhau cymeradwyaeth arweinwyr eglwysi lleol yn hanfodol, yn yr un modd ag y mae cynnal rhyw fath o ymchwil 'cyn ac wedyn' i helpu i arddangos effeithiau'r prosiect.

http://www.embrace.org.uk/pooled/profiles/BF_COMP/view.asp?Q=BF_COMP_8698

7. Environments for All yng Nghaerl-r – gweithio ar draws crefyddau

Mae rhaglen Environments for All BTCV wedi gweithio'n agos yng Nghaerlŷr gyda Moslemiaid Gwjarati, Hindwiaid Gwjarati, a Siciaid, yr oedd eu cyswllt diwylliannol cyffredin a'u cefndiroedd tebyg yn croesi'r bwlch crefyddol. Cafodd aelodau o'r crefyddau gwahanol gyfarfod wedi'i hwyluso gan BTCV, a dygodd trafodaethau amgylcheddol ffrwyth yn 2001 pan grëwyd gardd Rangoli ar y cyd. Creodd prosiect arall werddon drefol ar hen safle gorsaf betrol, gan roi terfyn ar weithgareddau anghyfreithlon a chan wneud y gymuned yn fwy diogel.

Gwahoddwyd BTCV gan Ganolfan Gymunedol Brahma Samaj i helpu i drefnu digwyddiadau ar gyfer y naw dathliad noson Navaratri a Diwali. Cymerodd tua 50 o deuluoedd ifanc a sawl grŵp gwyrdd lleol ran mewn addoli, dawnsio crefyddol a hyfforddiant ymwybyddiaeth amgylcheddol anffurfiol. Mae BTCV hefyd wedi gweithio gyda

grwpiau cymunedol i ddathlu dathliadau dyddiadau calendar Islamaidd ar y cyd. Mae teuluoedd yn gwerthfawrogi'r digwyddiadau hyn yn fawr, gan wneud ffrindiau newydd tra'n dysgu am arferion amgylcheddol sy'n arbed arian megis ailgylchu ac effeithlonrwydd ynni a dŵr. Mae amrywiaeth helaeth o bobl wedi mynychu'r digwyddiadau hyn, a daeth cannoedd o bobl o darddiad Somali, tarddiad Dwyrain Affricanaidd/Asiadd a tharddiad Ewropeaidd at ei gilydd yn ystod mis Ramadan.

Mae tîm Environments for All o'r farn mai sgil-gynnyrch gorau ei waith yw'r ffaith bod gwerthoedd a chredoau negyddol sydd wedi hen ymwreiddio yn dechrau cael eu dileu. Mae prosiectau amgylcheddol yn rhoi cyfle i bobl o bob rhan o'r gymuned ddeall ei gilydd tra'n gwella'r ardal leol, ac maent wedi gwneud llawer i ddileu hiliaeth, rhywiaeth, homoffobia ac Islamoffobia.

Ymhlith y gwersi allweddol mae'r canlynol:

- Mae dulliau cyfathrebu sefydledig effeithiol yn hanfodol. Elfennau pwysicaf allgymorth cymunedol yw nodi a defnyddio 'porthorion' cymunedol, gwrandao ar anghenion cymunedol, peidio â chodi disgwyliadau ffug, dileu rhagdybiaethau, a pharchu traddodiadau diwylliannol a ffydd
- Dylai integreiddio fod yn broses ddwyffordd lle y mae'r ddwy ochr yn dysgu am ei gilydd
- Mae'n hanfodol cadw mewn cysylltiad rheolaidd â grwpiau, er y gall fod yn anodd cyfleu'r wybodaeth i bawb heb arweinydd penodedig
- Mae angen rhywfaint o barhad yn eu gwaith ar y rhan fwyaf o brosiectau. Mae angen i lawer o gyfranogwyr weld canlyniadau ar unwaith a chynnydd gweladwy er mwyn i'w cymhelliant barhau

- Mae'n hanfodol bod prosiectau amgylcheddol yn deall eu lle yn yr hierarchaeth ganfyddedig o ran anghenion, a'u bod yn cydnabod na roddir blaenoriaeth uchel i wirfoddoli cadwraeth o'i gymharu â thlodi a ffactorau amddifadedd eraill.
<http://www.btcv.org/efa/about.html>

8. Sefydliad Islamaidd dros Ecoleg a Gwyddorau Amgylcheddol (IFEES)

Mae IFEES yn sefydliad a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n mynegi'r safbwynt Islamaidd ar ecoleg a gwyddorau amgylcheddol a'r broses o'u gweithredu. Mae IFEES yn darparu ymchwil, deunyddiau addysgu, a hyfforddiant ymarferol a damcaniaethol. Mae'r sioe sleidiau 'Qur'an a Creation', sy'n addas i gynulleidfa o Foslemiaid neu bobl nad ydynt yn Foslemiaid, yn amlinellu agweddau Islamaidd at yr amgylchedd, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu llawlyfr amgylcheddol i imamiaid.

Mae IFEES yn gobeithio sefydlu gwerysilloedd a gweithdai addysgol i annog gweithredu amgylcheddol, coleg rhyngwladol ar gyfer Astudiaethau Amgylcheddol Islamaidd yn y DU, a chanolfan arbrofol sy'n canolbwyntio ar y defnydd o dir, ffermio organig a datblygu technoleg amgen. Er mwyn hyrwyddo gweithgareddau Moslemaidd ar lawr gwlad yn y DU, mae IFEES wedi helpu i sefydlu Rhwydwaith Islamaidd Llundain dros yr Amgylchedd (LINE), gyda'r bwriad y bydd yn hunangynhaliol yn y pen draw.

Mae arian o ffynonellau priodol a phrinder staff cyflogedig yn rhwystro uchelgeisiau IFEES. Heb unrhyw gymorth gweinyddol a "thri aelod brwdfrydig iawn sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith", mae dylanwad IFEES yn fwy nag y byddid yn ei ddisgwyl. Mae'n rhwydweithio'n fyd-eang gyda sefydliadau anllwywodraethol, sefydliadau

rhyngwladol, cyrff academiaidd a sefydliadau ar lawr gwlad, a helpodd i lunio araith ar Islam a'r Amgylchedd ar gyfer y gynhadledd UNEP yn Cairo lle y sefydlwyd Undeb Barnwyr Arabaidd i'r Amgylchedd.

<http://www.ifees.org/>

Rhan 3 Tuag at arfer gwell

"Y ffordd orau a mwyaf pwerus o ysgogi newid yw canfod bod dod o hyd i ffordd arall o wneud pethau, byw neu fod, yn fwy boddhaus na'r hen ffordd... Nid yw euogrwydd yn ffordd dda o ysgogi newid... profiad uniongyrchol cadarnhaol, a'r boddhad personol sy'n deillio o wneud rhywbeth newydd a gwahanol yw'r catalydd pwysicaf dros newid efallai." (Sim Van Ryn, 1992)

Sylwadau o'r archwiliad anffurfiol hwn

- Mae dimensiynau cymdeithasol ac economaidd datblygu cynaliadwy ar hyn o bryd yn gydnaws â grwpiau ffydd mewn ffordd fwy naturiol na'r dimensiwn amgylcheddol, o gofio bod llawer o grwpiau ffydd yn wynebu heriau uniongyrchol ar ffurf hiliaeth a thlodi.
- Mae'r rhai sy'n cymryd rhan mewn prosiectau llwyddiannus o'r farn ei bod yn bosibl dangos bod rhoi datblygu cynaliadwy ar waith yn ffordd o arfer eich ffydd a bod rhaid dangos hynny.
- Nid yw'r broses o gynnwys datblygu cynaliadwy o fewn daliadau ffydd yn digwydd yn helaeth mewn unrhyw grŵp ffydd yn y DU eto.

7. Camau gweithredu blaenoriaethol

Mae ymgysylltiad ffydd â'r agenda datblygu cynaliadwy yn dechrau cynyddu, ac mae llawer o'r rhai a amlygwyd yn yr astudiaethau achos uchod, megis grŵp SAGE yn Rhydychen, wedi gweld pethau'n cyflymu yn ystod y

blynyddoedd diwethaf. Ond mae'n cymryd mwy nag ychydig unigolion ymroddedig i greu newid parhaol mewn agweddau ac ymddygiad ar y cyd, ac mae'r canlynol yn feysydd gweithredu blaenoriaethol:

Cysylltiadau

- Gwneud y cysylltiadau rhwng datblygu cynaliadwy ac arferion ffydd unigol ac ar y cyd

Iaith

- Diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r term 'datblygu cynaliadwy' ac nid yw ei berthnasedd i fywyd bob dydd yn unigryw i aelodau cymunedau ffydd. Er gwaethaf y cysylltiadau naturiol rhwng y ddwy ymagwedd a nodir yn Adran 3 (tudalen 10), roedd llawer o'r rhai sy'n arwain y gwaith a amlygwyd uchod yn ei chael yn anodd ymgysylltu â'u grwpiau ffydd lleol ar y dechrau, yn arbennig o ran prosiectau amgylcheddol. Mewn rhai achosion, fel y dengys yr astudiaeth achos Partners in Creation (gweler tudalen 27), maent yn wynebu problemau mwy uniongyrchol megis hiliaeth a thlodi, nad ystyrir eu bod o dan bennawd 'datblygu cynaliadwy'

Gwranddo

- Mae gan y gymuned datblygu cynaliadwy ran amlwg i'w chwarae i ymgysylltu'n ddyfnach â chymunedau ffydd er mwyn ymdrin â'r agenda a rennir a sicrhau buddiannau cydweithio o'r naill ochr a'r llall. Efallai nad oes gan wneuthurwyr polisi ac ymarferwyr lawer o brofiad uniongyrchol o grefyddau y tu allan i'w crefydd eu hunain (os oes un ganddynt), ac mae'n rhaid bod yn sensitif ynghylch gwerthoedd newydd a ffyrdd newydd o weithio a bod yn barod i'w derbyn. Dengys yr astudiaethau achos uchod y cynhelir y prosiectau mwyaf llwyddiannus pan fydd y gweithiwr proffesiynol datblygu cynaliadwy yn gwranddo ar

anghenion y gymuned leol ac yn ymateb iddynt, mewn deialog gwirioneddol. Mae'n rhaid i'r ddwy ochr fod yn sensitif ynghylch eu defnydd o iaith ac yn barod i'w hegluro.

Arweinyddiaeth ar gyfer crefyddau o amgylch datblygu cynaliadwy

Dim ond rhywfaint y gall ymddygiad unigol ei gyflawni heb arweinyddiaeth genedlaethol, ac yn hyn o beth, mae'r arweinyddiaeth gref gan Archesgob Caergaint a'r gwaith a wnaed o fewn esgobaethau unigol, yn arbennig ym Manceinion a Lerpwl, wedi bod yn bwysig. Fodd bynnag, cydnabu Archesgob Caergaint, Rowan Williams, fod angen atgyfnerthu hyn yn ei araith ym mis Gorffennaf 2004 ar yr amgylchedd: "Mae bwlch o hyd rhwng yr hyn a ddywedir a'r hyn a wneir yn ein sefydliadau ar y cyfan." Mae cymunedau ffydd yn dod at ei gilydd, bob wythnos neu'n fwy aml, i weddio, myfyrio, a thrafod materion sylfaenol bywyd, a phe byddai arweinwyr crefyddol yn defnyddio'r digwyddiadau hyn i roi cyd-destun ffydd ar gyfer gweithredu ym maes datblygu cynaliadwy, byddai eu dylanwad yn sylweddol.

Yn ogystal ag annog camau gweithredu ymhlith y ffyddloniaid, mae gan arweinwyr ffydd rôl sefydliadaol i'w chwarae hefyd fel 'prif weithredwyr' portffolios adeiladau, tir a buddsoddi, a phrynwyr nwyddau a gwasanaethau mawr. Mae'n hanfodol parhau i weithredu datblygu cynaliadwy ar y lefel hon.

Arian ffydd benodol ar gyfer prosiectau datblygu cynaliadwy

Ar y cyd â phrosiectau gwirfoddol datblygu cynaliadwy nad ydynt ar sail ffydd, wynebodd llawer o'r astudiaethau achos a amlygwyd yn y papur hwn heriau o ran arian, staff ac adnoddau. Mae cael gafael ar arian, hyd yn oed ar raddfa fach, yn aml yn llafurus, ond ar

gyfer rhai crefyddau mae gwrthwynebiadau moesegol i ffynonellau arian penodol ee. mae arian y Loteri yn deillio o gamblo. Mae llawer o gronfeydd yn gweithredu polisi cynwysoldeb sy'n gwneud cais unigol ar sail ffydd yn llai priodol, ac mae rhai grwpiau ffydd yn nodi y gall cael label 'grefyddol' fod yn anfantais hefyd.¹

Gweithgarwch rhyng-grefyddol ar ddatblygu cynaliadwy

Dengys yr astudiaethau achos a gynhwysir yn y papur hwn (ee. Environments for All yn Leicester) sut y mae prosiectau amgylcheddol yn chwalo rhwystrau rhwng crefyddau, yn meithrin ymdeimlad cyffredin o gymuned, ac yn gwella lles lleol i bawb. Dyma un o'r dadleuon da dros gael mwy o weithgarwch rhyng-grefyddol o ran datblygu cynaliadwy. Yn ogystal, bydd llais a champau gweithredu prif grefyddau'r DU ar y cyd yn creu newid mwy sylweddol a chyflymach nag y gallai un grefydd ei gyflawni ar ei phen ei hun, a bydd y broses o rannu ymdrech a phrofiad yn atgyfnerthu cysylltiadau presennol rhwng crefyddau.

8. Camau nesaf

Gwneuthurwyr polisi ac ymarferwyr datblygu cynaliadwy

- Gall y gymuned datblygu cynaliadwy wneud mwy o ymdrech i ddeall prif grefyddau'r DU, o ran credoau crefyddol ac arferion diwylliannol, ac

¹ Cronfa Meithrin Gallu Cymunedau Ffydd: Cronfa newydd a lansiwyd ar 22ain Medi 2005 fel rhan o strategaeth y Llywodraeth 'Improving Opportunity and Strengthening Society'. Bydd y gronfa yn helpu cymunedau ffydd i hyrwyddo dealltwriaeth a deialog. Dwy flaenoriaeth y Gronfa yw meithrin gallu a gweithgarwch rhyng-grefyddol.

Mae'r Gronfa ar agor am geisiadau tan 2 Rhagfyr 2005. Bydd grantiau mawr a bach ar gael. Gellir cael manylion a ffurflenni grant drwy wefan y Sefydliad Datblygu Cymunedol (<http://www.cdf.org.uk>)

ymchwilio'n greadigol i'r cyfraniad y gallent ei wneud i ddatblygu cynaliadwy

- Gallai'r ddealltwriaeth well hon arwain at ddatblygu deunyddiau cyfathrebu penodol gan gysylltu daliadau crefyddau ag egwyddorion ac arferion datblygu cynaliadwy, ac annog gweithredu
- Gall arianwyr ddeall yn well y gwrthwynebiadau moesegol posibl i rai ffynonellau arian ar ran cymunedau ffydd
- Gellir ymchwilio i'r posibilrwydd o gael cronfa arian benodol ar gyfer prosiectau datblygu cynaliadwy a arweinir gan grefyddau.

Arweinwyr ffydd a chymunedau ffydd

- Gall arweinwyr ffydd godi proffil materion amgylcheddol a chymdeithasol, o fewn daliadau eu ffydd, ac annog grwpiau ffydd lleol i weithredu. Newid yn yr hinsawdd yn ddiaw yw'r mater pwysicaf y mae angen ymdrin ag ef, ac mae treuliant cynaliadwy yn un lle y mae gan grwpiau ffydd, gyda gwerthoedd sy'n herio prynwriaeth, y blaen yn naturiol ar y gweddill
- Lle y mae unigolion yn frwdfrydig, gall arweinwyr ffydd lleol fynd ati i annog eraill i gymryd rhan hefyd
- Gall arweinwyr ffyrdd weithredu arferion datblygu cynaliadwy ym meysydd adeiladu 'corfforaethol', portffolios tir a buddsoddi a chaffael
- Gall cymunedau ffydd lleol ddilyn yr enghreifftiau a amlygir yn y cyhoeddiad hwn, a dechrau eu prosiectau eu hunain, gan ganolbwyntio ar yr hyn a

gyflawnir yn gyflym i ddenu gwirfoddolwyr eraill

- Gall prosiectau llwyddiannus dynnu mwy o sylw at eu cyflawniadau ac annog eraill i wneud yr un peth
- Gall cydberthnasau rhyng-grefyddol newydd gael eu hybu gan gamau ymarferol ar ddatblygu cynaliadwy.

WWF a'r SDC

- Fel corff cynghori swyddogol y Llywodraeth, bydd yr SDC yn mabwysiadu ymagwedd strategol lefel uchel tuag at godi pwysigrwydd grwpiau ffydd wrth sicrhau datblygu cynaliadwy o fewn adrannau allweddol y Llywodraeth, yn arbennig y Swyddfa Gartref
- Fel sefydliad gwbl 'anwleidyddol', a gydnabyddir am ei arbenigedd ar draws pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy, bydd WWF yn parhau i weithio gyda chymunedau ffydd fel rhan o'i rhaglen datblygu cynaliadwy, a lledaenu arfer da
- Byddai'r SDC a WWF yn croesawu cynnull menter rhyng-grefyddol newydd, wedi ei dilyn gan gynllun gweithredu
- Croesawn gyfraniadau eraill o ddeunydd astudiaethau achos. Mae tudalen Ffydd ar Waith ar wefan yr SDC.
www.sd-commission.org.uk

Ceir rhagor o wybodaeth gan www.wwf.org.uk/localmatters

Atodiad A Cyfeiriadau, dyfyniadau a gwefannau

Dogfennau cyfeirio

(Nid yw hyn yn cynnwys testunau craidd megis y Beibl, y Qu'ran, Agenda 21 ac ati)

- *'Building a Sustainable Future'* Sim Van der Ryn yn 'Sustainable Cities: Concepts and Strategies for EcoCity Development' 1992 Eco-Home Media, California.
- *'Building on Faith – faith buildings in neighbourhood renewal'*. Cronfa Drefol yr Eglwys. 2004 Gol. Finneron & Dingham,
- CAFOD Review of the Year 2003/4
- *'Call of Creation: God's invitation and the Human Response - The natural environment and Catholic Social Teaching'*. Cynhadledd Cymru a Lloegr yr Esgobion Catholig. 2002.
- *'Earth and Faith: a book of reflection for action'* UNEP Interfaith partnership for the environment, 2000
- *'Environments for All'* BTCV, i'w gyhoeddi ar ddechrau 2005
- *'Faith Communities and sustainable development – a report for the UK National Sustainable Development Strategy Review'* Community Environment Associates ar gyfer DEFRA, 2004.
- *'Faith makes communities work'* Rhaglen Datblygu Cymunedol Shaftesbury / DETR 1999
- *'Invoking the spirit: religion and spirituality in the quest for a sustainable world'* Gardner, papur Worldwatch 164, 2002
- *'Living lightly on the earth'* McDonagh, Sefydliad Catholig dros Gysylltiadau Rhyngwladol 2004.
- *'Only One Earth'* Ward, Pelican Books 1972
- *'Our towns and cities: the future'* DETR, 2000, Llundain
- *'Seven sides to every question? Towards effective inter-disciplinary action on sustainable communities and sustainable development'* Church, CDF 2005 (ar y wefan)
- *'Sustainable development – Can it be made to work in the real world?'* Ymateb i Ddarlithoedd Reith 2000. Menter John Ray.
- *'Thinking Locally, Acting Nationally: Lessons for national policy from local action on sustainable development'* Church & Elster, CDF / JRF, Llundain 2002
- *'Transforming the Causes of Suffering in Mindfulness and Meaningful Work: Explorations in Right Livelihood'*. Goodman, S. Parallax Press, Berkeley, California. 1994
- *'Valuing Spirituality in Development'*, Bahai Publishing Trust 1998
- *'Working together: co-operation between government and faith communities'* y Swyddfa Gartref 2004

Ffynonellau ar gyfer dyfyniadau

- *'Changing the myths we live by'* Archesgob Rowan Williams. Palas Lambeth. 5ed Gorffennaf 2004
- *'Paying what we owe'* Esgob James Jones, The Guardian 22 Tachwedd 2002
- Ahmed-Dobson, Joe, Cadeirydd Pwyllgor Adfywio ac Adnewyddu Prydain Cyngor Moslemaidd. 19 Rhagfyr. 2002 Datganiad i'r wasg *'Faith groups recognise good work of London local authorities'*. www.mcb.org.uk
- *'Bearing witness: a Zen master's lessons in making peace'* Glassman, Bell Tower Books 1998
- *'Do churches really want to save the planet?'* John Kennedy, CTBI, The Independent, 9 Hydref 2004



- Mae dyfyniadau Duane Elgin ar symlrwydd gwirfoddol yn dod o *'Deep Ecology: Living as if Nature mattered'* Parallax Press
- *"Marketing Values"* Dharmachari Vajraketu, Dharma Life 6 (1997): 25 (FWBO)
- Mike Monaghan (yn *Priests and People: Justice for Creation*. Chwefror 2000 Cyfrol 14 Rhif 2 ISSN 00009-8736), dyfynnwyd ym Menter John Ray – Review and Strategy 2004.
- Cylchlythyr *'Vocation for justice'*, Tim Ffydd a Chyfiawnder, Cymdeithas St Columban Hydref 2004
- Dadl ar-lein Worldwatch, Medi 2004 at www.worldwatch.org

Gwefannau

Safleoedd Buddsoddiad Moesegol

<http://www.cofe.anglican.org/info/ethical/>

<http://www.ecology.co.uk/>

<http://www.triodos.co.uk/>

<http://www.arcworld.org/projects.asp?projectId=48>

Prosiectau a sefydliadau ar sail ffydd

A Rocha UK: <http://www.faithworks.info/Standard.asp?id=4243>

Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain: <http://www.btcv.org/index.html>

Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr: www.catholic-ew.org.uk

Cyswllt Ecoleg Cristnogol: www.christian-ecology.org.uk

Eglwys Loegr: www.cofe.anglican.org/commissioners/asset.htm

Y Sefydliad Datblygu Cymunedol: www.cdf.org.uk

Community Environment Associates: www.suscom.org/cea

Y Sefydliad Cadwraeth: <http://www.conservationfoundation.co.uk/>

The Earth Charter Initiative: www.earthcharter.org

Ekklesia - UK think tank on theology and a news service: www.ekkleisia.co.uk

ENCAMS/ENHANCE:

http://www.embrace.org.uk/pooled/profiles/BF_COMP/view.asp?Q=BF_COMP_8698

Environment City Leicester: www.environmentcity.org.uk/

Rhwydwaith Amgylcheddol Cristnogol Ewropeaidd (ECEN):

<http://www.ecen.org/ecenhome.shtml?sfgdata=4>

IFEES: <http://www.ifees.org/>

Imaad: http://www.imaad.org/contact_us.htm

Menter John Ray: <http://www.jri.org.uk/>

Good Energy (Unit(e) o'r blaen: <http://www.good-energy.co.uk/>

Rhown Derfyn ar Dlodi: www.MAKEPOVERTYHISTORY.org

Wythnos Un Byd – 23-30 Hydref 2005: www.oneworldweek.org

PS...Buddhist eco-practice: www.ecopractice.fwbo.org

Quaker Green Action: www.quakergreenconcern.org.uk

Soka Gakkai International: <http://www.sgi-uk.org/>

<http://www.telcocitizens.org.uk/>

Tearfund : www.tearfund.org

Triodos Ethical Bank: www.triodos.co.uk

UNICEF: www.unicef.org.uk

Unit(e)(Good Energy bellach): <http://www.good-energy.co.uk/>

WWF-UK: www.wwf.org.uk

Gweler hefyd: www.wwf.org.uk/core/about/ta_0000001152.asp

(Menter Manceinion)

www.yorkshire-wildlife-trust.org.uk/ylc_01.htm

Atodiad B: Egwyddorion datblygu cynaliadwy

Ym mis Mawrth 2005, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig *Un dyfodol – gwahanol lwybrau*, fframwaith strategol cyffredin y DU ar gyfer datblygu cynaliadwy. Lanswyd hyn ar y cyd â strategaeth newydd Llywodraeth y DU ar gyfer datblygu cynaliadwy, *Securing the Future*.

Mae nod fframwaith newydd yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn ceisio ei gyflawni:


Nod datblygu cynaliadwy yw galluogi pawb ledled y byd i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a mwynhau ansawdd bywyd gwell, heb beryglu ansawdd bywyd cenedlaethau i ddod.

Ar gyfer Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, anelir at gyflawni'r nod hwnnw mewn ffordd integredig, drwy economi gynaliadwy, arloesol a chynhyrchiol sy'n sicrhau lefelau uchel o gyflogaeth, a chymdeithas deg sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, cymunedau cynaliadwy a lles personol. Gwneir hyn mewn ffyrdd sy'n diogelu ac yn gwella'r amgylchedd ffisegol a naturiol, ac sy'n defnyddio adnoddau ac ynni mor effeithlon â phosibl.

Rhaid i Lywodraeth hyrwyddo dealltwriaeth glir o ddatblygu cynaliadwy, ac ymrwymiad iddo, fel y gall pawb gyfrannu at y nod cyffredinol drwy eu penderfyniadau unigol.

Bydd amcanion tebyg yn llywio pob un o'n hymdrechion rhyngwladol, a bydd y DU yn hyrwyddo atebion amlochrog a chynaliadwy i broblemau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol mwyaf dyrys heddiw. Mae dyletswydd glir ar wledydd mwy ffyniannus i roi trefn ar bethau, ac i gefnogi gwledydd eraill wrth newid i fyd tecach a mwy cynaliadwy.

Mae set o bum egwyddor gyffredin yn ategu'r diben hwn ac mae'r fframwaith yn nodi bod yn rhaid i bolisi "barchu pob un o'r pum egwyddor" er mwyn cael ei ystyried yn gynaliadwy:



Living Within Environmental Limits

Byw o Fewn Terfynau Amgylcheddol

Parchu terfynau amgylchedd, adnoddau a bioamrywiaeth y blaned – i wella ein hamgylchedd a sicrhau nad amherir ar yr adnoddau naturiol sydd eu hangen ar gyfer bywyd a'u bod yn aros fel y maent am genedlaethau i ddod.

Ensuring a strong, healthy and just society

Sicrhau Cymdeithas Gref, Iach a Chyfiawn

Diwallu anghenion amrywiol pawb yng nghymunedau heddiw a chymunedau i ddod, gan hyrwyddo lles personol, cydlyniant a chynhwysiant cymdeithasol, a chreu cyfleoedd cyfartal i bawb.

Achieving a Sustainable Economy

Cyflawni Economi Gynaliadwy

Creu economi gadarn, sefydlog a chynaliadwy, sy'n darparu ffyniant a chyfleoedd i bawb, a lle y mae costau amgylcheddol a chymdeithasol yn syrthio ar y rhai sy'n eu gosod (y llygrwr yn talu) a lle y rhoddir cymhellion i ddefnyddio adnoddau yn effeithlon.

Promoting Good Governance

Hyrwyddo Llywodraethu Da

Hyrwyddo systemau llywodraethu effeithiol, cyfranogol yn weithgar ar bob lefel o gymdeithas – defnyddio creadigrwydd, egni ac amrywiaeth pobl.

Using Sound Science Responsibly

Defnyddio Gwyddoniaeth Gadarn mewn Ffordd Gyfrifol

Sicrhau y caiff polisi ei ddatblygu a'i weithredu ar sail tystiolaeth wyddonol gref, gan ystyried ansicrwydd gwyddonol (drwy'r egwyddor ragofalus) yn ogystal ag agweddau a gwerthoedd cyhoeddus.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar y cyd gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy a WWF-UK, Panda House, Weyside Park, Godalming, Surrey, GU7 1XR Elusen Gofrestredig Rhif 1081247.

Mae WWF-UK yn gwmni cyfyngedig drwy warant; rhif 4016725. Symbol Panda © 1986 WWF. ® WWF Nod masnach cofrestredig.

Rhaid i unrhyw ddefnydd o'r deunydd hwn gael ei gydnabod drwy gyfeirio at "Datblygu Cynaliadwy a Grwpiau Ffydd y DU: dwy ochr yr un geiniog?", adroddiad gan SDC a WWF-UK, Llundain, 2005

Diolch i Esther Maughan McLachlan yn Strong Language

Argraffwyd ar 75% o bapur gwastraff defnyddwyr wedi ei ailgylchu.